Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Galwad am Dystiolaeth: Cyfiawnder Agored, y ffordd ymlaen

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 29 Ionawr 2025

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Galwad am Dystiolaeth: Cyfiawnder Agored, y ffordd ymlaen

Crynodeb o'r Ymatebion

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Cyfiawnder Agored | 10 |
| Rhestrau | 16 |
| Mynediad at y Llysoedd a’r Tribiwnlysoedd | 21 |
| Arsylwi o Bell a Ffrydio Byw | 23 |
| Darlledu | 28 |
| Gweithdrefn Un Ynad (SJP) | 32 |
| Cyhoeddi Dyfarniadau a Sylwadau Dedfrydu | 36 |
| Mynediad at ddogfennau a gwybodaeth y llys | 43 |
| Mynediad at ddata ac ailddefnyddio | 48 |
| Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus | 56 |
| Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg | 62 |
| Casgliadau a’r camau nesaf | 63 |
| Atodiad A – Grwpiau Rhanddeiliaid | 64 |

# Crynodeb gweithredol

Roedd yr alwad am dystiolaeth 'Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen', a gyhoeddwyd ar 11 Mai 2023, yn gofyn am sylwadau ar ddeg maes yn ymwneud â chyfiawnder agored a thryloywder. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau ar yr egwyddorion sy'n ymwneud â chyfiawnder agored a thryloywder, yn ogystal â meysydd penodol o'r system gyfiawnder, yn enwedig y rhai sydd wedi profi cyfnod o newid cyflym dros y degawd diwethaf wrth i ni weithio i foderneiddio ein system gyfiawnder.

Yn yr Alwad am Dystiolaeth, fe wnaethom ymdrin â llawer o'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar 'Adroddiadau Llys yn yr Oes Ddigidol' (Tachwedd 2022), gan gynnwys: rhestrau wedi'u cyhoeddi, darlledu, arsylwi o bell, mynediad at ddogfennau llys a chyhoeddi dyfarniadau. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd ehangu ein ffocws y tu hwnt i adroddiadau llys i gynnwys materion cyfiawnder agored yn ehangach ac ar draws awdurdodaethau, gan gynnwys: Gwasanaethau GLITEF, addysg gyfreithiol gyhoeddus, a mynediad at ddata a gwybodaeth am gyfiawnder.

Cawsom 131 o ymatebion i gyd gan sefydliadau ac unigolion. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn: unigolion, defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain (22%), cyrff anllywodraethol, elusennau a grwpiau cymdeithas sifil (20%), gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, cymdeithasau cyfreithiol a chwmnïau cyfreithiol (20%), academyddion (12%) a chynrychiolwyr y cyfryngau (12%). Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y pwnc.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr:

- **Egwyddor Cyfiawnder Agored:** Pwysleisiodd ymatebwyr werth yr egwyddor bod yn rhaid gweld cyfiawnder yn cael ei gyflawni i sicrhau tryloywder ac i ddwyn y farnwriaeth a'r llysoedd i gyfrif. Nododd ymatebwyr bwysigrwydd annibyniaeth y farnwriaeth ond teimlent fod diffyg dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o rôl barnwyr a'u hannibyniaeth, gyda galwadau i weithredu er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Teimlwyd bod dealltwriaeth y cyhoedd o'r system llysoedd a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn elfen allweddol o reolaeth y gyfraith, i gadw'r gyfraith yn hygyrch ac i gynnal hyder yn y system. Teimlai nifer o'r ymatebwyr fod angen ystyried y ddarpariaeth o gyfraith agored mewn oes ddigidol, o ystyried bod mwy o wrandawiadau ar-lein, dogfennau digidol, ac (yn yr awdurdodaethau sifil a theulu) mwy o setliadau y tu allan i'r llysoedd a chyn dechrau achosion llys ffurfiol.
- **Rhestrau:** Nododd ymatebwyr bwysigrwydd mynediad at restrau cywir a phrydlon sy'n dangos gwybodaeth am achosion llys sydd ar y gweill wrth hwyluso cyfiawnder agored. Dywedodd rhai ymatebwyr, yn eu profiad nhw, nad oedd rhestrau bob amser yn cael

eu cyhoeddi mewn modd prydlon a chyson. Roedd y farn ar faint o fanylion y dylid eu cynnwys yn y rhestrau yn amrywio. Awgrymwyd sawl defnydd eilaidd ar gyfer y rhestrau, gan gynnwys dadansoddi ystadegol er mwyn deall yn well y mathau o achosion sy'n cael eu gwrando mewn llysoedd ac adnoddau i helpu'r cyfryngau, cyrff anllywodraethol (NGOs) a gwylwyr llysoedd i olrhain achosion o'r dechrau i'r diwedd.

- **Mynediad at y llysoedd a'r tribiwnlysoedd:** Teimlai ymatebwyr y gellid gwneud mwy i sicrhau mynediad cyhoeddus 'wyneb yn wyneb' at lysoedd a thribiwnlysoedd, fel sicrhau bod llysoedd a thribiwnlysoedd yn addas ar gyfer ymwelwyr ac arsylwyr, a phwysigrwydd arwyddion clir a chefnogaeth i staff. Roedd rhwystrau ehangach i fynediad a grybwyllwyd yn cynnwys mynediad anghyson at ddogfennau llys a diffyg manylion cyswllt ar gyfer llysoedd penodol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd rôl y farnwriaeth yn hyn y beth, er enghraifft, drwy sicrhau bod cyfyngiadau adrodd yn glir, caniatáu i arsylwyr o bell gael mynediad, lle bo hynny'n briodol, a cheisio defnyddio llai o iaith gyfreithiol gymhleth drwy gydol achosion.
- **Arsylwi o Bell a Ffrydio Byw:** Tynnodd ymatebwyr sylw at wahanol fanteision arsylwi o bell a ffrydio byw, gan gynnwys: cynyddu mynediad at wrandawiadau, galluogi sylw ehangach yn y cyfryngau, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder. Nododd ymatebwyr nifer o risgiau gan gynnwys y risgiau i breifatrwydd a mwy o risg o ddirmyg llys, er enghraifft, drwy recordio'r achos heb awdurdod. Roedd ymatebwyr hefyd yn poeni y gallai partïon deimlo dan fygythiad, ac y gallai hyn effeithio ar allu dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth neu gymryd rhan mewn achosion. Awgrymwyd y gellid lliniaru'r risgiau hyn, o bosibl, drwy ddisgresiwn barnwrol a mesurau diogelu priodol.
- **Darlledu Achosion Llys:** Teimlai ymatebwyr fod gan ddarlledu'r potensial i gynyddu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth y cyhoedd, ond nodwyd nifer o risgiau ac felly awgrymwyd y dylid datblygu unrhyw gynlluniau i ehangu darlledu mewn modd gofalus ac ailadroddol. Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch achosion posibl o dorri preifatrwydd a'r posibilrwydd y byddai darlledu treialon yn rhwystro tystion neu ddioddefwyr rhag dod ymlaen. Nodwyd hefyd y potensial ar gyfer gorliwio ac adroddiadau anghywir gan ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol a blogwyr a oedd yn llai cyfarwydd â'r rheolau adrodd.
- **Gweithdrefn Un Ynad:** Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch tryloywder y Weithdrefn Un Ynad, yn enwedig ar gyfer diffynyddion nad oeddent yn ymateb i hysbysiadau erlyn. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn cynnwys mwy o arweiniad a chefnogaeth i ddiffynyddion. Teimlai ymatebwyr hefyd fod angen craffu mwy ar y Weithdrefn Un Ynad, a bod angen cyhoeddi data'n well ynghylch y broses a'r canlyniadau.
- **Cyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu:** Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol, ar y cyfan, ynghylch canoli'r broses o gyhoeddi dyfarniadau llysoedd a phenderfyniadau tribiwnlysoedd ar un llwyfan ar-lein. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod dyfarniadau ar gael mewn fformatau y gall peiriant eu darllen. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad yw llawer o ddyfarniadau ar gael ar-lein ar hyn o bryd, a oedd i'w

weld yn cyfyngu ar allu’r cyhoedd i ddeall y rhesymeg sy’n sail i benderfyniadau penodol, gan effeithio o bosibl ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn penderfyniadau barnwrol yn gyffredinol.

- **Mynediad at Ddogfennau Llys:** Yn ôl yr ymatebwyr, roedd cost cael gafael ar ddogfennau llys yn rhwystro unigolion neu sefydliadau rhag gofyn am fynediad. Cynigiodd ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer gwella hygyrchedd dogfennau gan gynnwys: creu cronfa ddata ganolog, safoni rheolau a gweithdrefnau ar draws awdurdodaethau, a lleihau’r costau ar gyfer cael gafael ar ddogfennau.
- **Mynediad at Ddata ac Ailddefnyddio Data:** Teimlai ymatebwyr y dylai data cyfiawnder fod yn fwy hygyrch ar gyfer ymchwil ac arloesi, gyda mesurau diogelu priodol ar gyfer data personol. Byddai hyn yn golygu bod modd craffu’n well ar y system gyfiawnder, cefnogi ymchwil gyfreithiol academaidd, a galluogi datblygu adnoddau a allai drawsnewid sectorau Technoleg y Gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol y DU. Roedd y rhwystrau presennol y soniwyd amdanynt gan ymatebwyr yn cynnwys prosesau a llwybrau aneglur ar gyfer gwneud cais, anghysondebau o ran fformat a strwythur setiau data, a’r amser a gymerir i gael gafael ar ddata.
- **Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus:** Soniodd ymatebwyr am ddiffyg dealltwriaeth y cyhoedd o’r system gyfiawnder, gyda ffactorau amrywiol yn cyfrannu at hyn, gan gynnwys: cymhlethdodau ar draws awdurdodaethau, yr iaith gymhleth a ddefnyddir mewn achosion cyfreithiol, anawsterau o ran cael gafael ar gyngor cyfreithiol fforddiadwy, diffyg mynediad at ddogfennau llys, a diffyg gwybodaeth gyhoeddus hawdd ei deall am y system gyfiawnder. Awgrymodd ymatebwyr ddulliau amrywiol o gynyddu gwybodaeth, gan gynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth y llywodraeth, cynnwys addysg cyfiawnder yng nghwricwlwm yr ysgol, allgymorth cymunedol a defnyddio’r cyfryngau (yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol) fel cyfrwng cyfathrebu.

Er bod yr Alwad am Dystiolaeth yn eang, roedd nifer o themâu trosfwaol a ddaeth i’r amlwg ar draws y penodau:

- Pwysigrwydd bod yr adran yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol yn gyson, gan sicrhau cysondeb priodol o ran sicrhau cyfiawnder agored a thryloywder y system gyfiawnder ar draws llysoedd ac awdurdodaethau.
- Sicrhau bod egwyddorion cyfiawnder agored a thryloywder yn cael eu gwreiddio wrth i’r system gyfiawnder barhau i gael ei digideiddio, a bod symudiad tuag at ddatrys mwy o achosion y tu allan i’r llys ac o bosibl cyn dechrau achosion ffurfiol.
- Pwysigrwydd data dibynadwy a hawdd ei ddeall i graffu ar y system gyfiawnder, ar achosion unigol ac ar draws y system gyfan.
- Yr angen i sicrhau mesurau diogelu priodol wrth weithredu polisïau cyfiawnder agored a thryloywder, gan sicrhau cydbwysedd ag egwyddorion eraill, fel yr hawl i breifatrwydd ac annibyniaeth farnwrol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i amddiffyn rheolaeth y gyfraith, adra a thramor ill dau. Mae hygyrchedd y gyfraith a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder yn egwyddorion sylfaenol hollbwysig o reolaeth y gyfraith, sydd wedi'u hwyluso gan system gyfiawnder agored. Bydd yr wybodaeth werthfawr a rennir gan ymatebwyr yn cael ei hystyried ymhellach wrth i ni barhau i ddatblygu polisïau i foderneiddio a gwella tryloywder y system gyfiawnder, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gadarn, yn deg ac yn hygyrch i bawb.

# Cyflwyniad

Cafodd yr Alwad am Dystiolaeth ‘Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen’ ei gyhoeddi ar 11 Mai 2023 a’i gynnal tan 7 Medi 2023. Mae’r ddogfen hon yn grynodeb o’r ymatebion ysgrifenedig a gawsom i’r papur hwnnw. Mae’n cynnwys:

- Cefndir yr Alwad am Dystiolaeth;
- Crynodeb o’r Ymatebion i’r Alwad am Dystiolaeth;
- Bod yr ymarfer Galwad am Dystiolaeth am ddylanwadu ar ddatblygu polisi ymhellach yn y maes hwn; a
- Dadansoddiad o’r grwpiau rhanddeiliaid a ymatebodd i’r Alwad am Dystiolaeth.

## Cefndir

Mae’r system gyfiawnder wedi cael cyfnod o foderneiddio, ac roedd Rhaglen Ddiwygio GLITEF yn ganolog i’r trawsnewid hwn. Mae digideiddio’r system gyfiawnder yn cyflwyno cyfleoedd a risgiau ar gyfer cyfiawnder agored ac yn codi cwestiynau pwysig ynghylch y cydbwysedd rhwng bod yn agored a phreifatrwydd. Wrth i’r system gyfiawnder foderneiddio, rhaid i ni archwilio sut mae cyfiawnder agored yn parhau i gael ei gynnal, ac ar ben hynny, sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfiawnder agored mewn ffordd sy’n bodloni’r disgwyliad cynyddol o gael mynediad at gyfiawnder mewn ffordd fwy modern a digidol. Mae cynnal dealltwriaeth y cyhoedd o gyfiawnder, hygyrchedd y gyfraith a’r system gyfiawnder yn elfennau hanfodol o reolaeth y gyfraith, sy’n flaenoriaeth i’r Llywodraeth hon.

Yn 2022, dechreuodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ymchwiliad yn edrych ar effeithiau digideiddio ar y llysoedd, ar y cyfryngau ac ar gyfiawnder agored. Daeth hyn i ben drwy gyhoeddi ei adroddiad ym mis Tachwedd 2022 – *Court Reporting in the Digital Age*.

Wrth ymgymryd â’r Alwad am Dystiolaeth ‘Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen’, fe wnaethom roi sylw i lawer o’r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. Fe wnaethom hefyd ehangu ein ffocws a gofyn am safbwyntiau ar ddeg pwnc:

1. Diffinio a chyflawni egwyddorion cyfiawnder agored a thryloywder;
2. Rhestrau;
3. Mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd;
4. Arsylwi o bell a ffrydio byw;
5. Darlledu;

6. Gweithdrefn Un Ynad;
7. Cyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu;
8. Mynediad at ddogfennau a gwybodaeth y llys;
9. Mynediad at ddata ac ailddefnyddio data; ac
10. Addysg gyfreithiol gyhoeddus.

Nod yr Alwad am Dystiolaeth oedd casglu amrywiaeth eang o ymatebion gan unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y maes hwn. Croesawyd cyfraniadau gan bob parti â diddordeb, gan gynnwys y farnwriaeth, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y cyfryngau, busnesau, academyddion, arbenigwyr y gyfraith a thechnoleg, defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd, a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yn ogystal â chyflwyniadau ysgrifenedig, er mwyn galluogi sgyrsiau manylach am bynciau penodol, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd gyfres o chwe digwyddiad bwrdd crwn ar-lein gyda chynrychiolwyr y cyfryngau, y byd academaidd, Technoleg y Gyfraith a Chyrff Anllywodraethol.

## Trosolwg o'r ymatebwyr

Cawsom 131 o ymatebion ysgrifenedig i gyd i'r Alwad am Dystiolaeth. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn: unigolion, defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain (22%); cyrff anllywodraethol, elusennau a grwpiau cymdeithas sifil (20%); gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, cymdeithasau cyfreithiol a chwmnïau cyfreithiol (20%); academyddion (12%); a chynrychiolwyr y cyfryngau (12%).

Mae dadansoddiad o'r rhanddeiliaid ar gael yn Atodiad A.

## Manylion cyswllt

Mae mwy o gopïau o'r adroddiad hwn ac o'r Alwad am Dystiolaeth ar gael drwy gysylltu â'r tîm polisi Cyfiawnder Agored a Thryloywder yn y cyfeiriad isod:

**Open Justice and Transparency Policy**
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost:** openjusticepolicy@justice.gov.uk

Mae modd gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy'r manylion cyswllt uchod.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# 1. Cyfiawnder Agored

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 1:** Eglurwch beth mae egwyddor cyfiawnder agored yn ei olygu yn eich barn chi. | **51 (39%)** |
| **Cwestiwn 2:** Eglurwch a ydych chi'n teimlo bod pwerau barnwrol annibynnol yn cael eu gwneud yn glir i'r cyhoedd, ac unrhyw farn arall sydd gennych am y pwerau hyn. | **48 (37%)** |
| **Cwestiwn 3:** Beth yw eich barn am ba mor agored a thryloyw yw'r system gyfiawnder ar hyn o bryd? | **78 (59%)** |
| **Cwestiwn 4:** Beth yw'r ffordd orau i ni barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ac arbenigwyr ar ddatblygu a gweithredu polisi cyfiawnder agored ar ôl i'r cais hwn am dystiolaeth ddod i ben? | **62 (47%)** |
| **Cwestiwn 5:** A oes materion polisi penodol o fewn cyfiawnder agored y dylem roi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu cylch? | **10 (8%)** |

## 1.1 Egwyddor cyfiawnder agored

Pan ofynnwyd iddynt sut byddent yn diffinio'r egwyddor cyfiawnder agored, cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at y dyfyniad adnabyddus, 'rhaid cael cyfiawnder a rhaid iddo gael ei weld'.[1] Pwysleisiodd llawer fod yr egwyddor cyfiawnder agored yn allweddol i reol gyfreithiol a gweithrediad democratiaeth.

Roedd llawer o ymatebwyr, yn enwedig academyddion, hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cyfiawnder agored i sicrhau atebolrwydd barnwrol a diogelu pobl rhag achosion o gamddefnyddio pŵer. Nodwyd bod angen sicrwydd ar bobl fod y llysoedd yn gweithredu'r gyfraith yn gywir, ac yn gweld hwn fel sylfaen rheolaeth y gyfraith. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i dreial teg) fel sail i gyfiawnder agored. Dywedodd rhai ymatebwyr, yn enwedig sefydliadau'r cyfryngau, fod cyfiawnder agored yn golygu mwy na dim ond arsylwi, a lle bo'n bosibl, dylid cael mynediad at y daith gyfreithiol a'r broses, nid dim ond pwyntiau penodol ar hyd y ffordd neu ganlyniad achos. Nodwyd bod gwybodaeth am achosion,

1 R v Sussex Justices, ex parte McCarthy ([1924] 1 KB 256, [1923] All ER Rep 233

dogfennau perthnasol, trawsgrifiadau a dyfarniadau yn rhan bwysig o gyfiawnder agored. Dywedodd ymatebwyr y dylai cyfiawnder agored olygu bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut mae cael gwybodaeth am brosesau cyfreithiol a deall eu hawliau. Yn ôl defnyddwyr y llysoedd a’r sefydliadau sy’n cynrychioli defnyddwyr y llysoedd, gall y broses deimlo’n ddyrys ac yn gyfrinachol i’r rhai sy’n mynd drwy’r system llysoedd.

Soniodd llawer o ymatebwyr am y rhwystrau ymarferol sy’n gysylltiedig â chyfiawnder agored, gan gynnwys y diffyg eglurder ynghylch achosion sy’n cael eu gwrando, cost cael gafael ar ddogfennau, a chefnogaeth gyfyngedig i lywio drwy’r system. Gan fod y rhwystrau ymarferol a godwyd yn yr adran hon yn ymwneud â phynciau penodol sy’n cael sylw yn yr Alwad am Dystiolaeth, mae’r pwyntiau hyn wedi cael eu cofnodi o dan y penawdau perthnasol (ee rhestrau, mynediad at ddogfennau a gwybodaeth ac ati).

Roedd llawer o’r ymatebwyr o’r farn y dylid gwneud y system gyfiawnder mor agored a thryloyw â phosibl lle bo hynny’n bosibl. Fodd bynnag, roedd llawer yn cydnabod bod yn rhaid cydbwyso cyfiawnder agored yn aml yn erbyn ffactorau pwysig fel yr hawl i breifatrwydd, diogelu data a diogelwch, ailsefydlu troseddwyr (yn enwedig o ran cyhoeddi troseddau ar-lein) a dirmyg llys.

Nododd rhai ymatebwyr, yn enwedig academyddion a grwpiau cymdeithas sifil, bwysigrwydd bod data cywir a hygyrch ar gael er mwyn gallu craffu ar y llysoedd. Adroddodd yr ymatebwyr hyn bod craffu ar lefel system, yn ogystal ag achosion unigol, yn bwysig ar gyfer atebolrwydd.

Yn olaf, yng nghyd-destun mwy o wrandawiadau ar-lein, a setliadau y tu allan i’r llys a chyn i achos llys ffurfiol gychwyn, nododd rhai ymatebwyr, academyddion yn bennaf, na all ‘cyfiawnder agored’ gael ei ddiffinio fel yr oedd o’r blaen. Roeddent o’r farn bod yr egwyddor yn gofyn am ddehongliad mwy modern gyda diffiniad mwy eang.

## 1.2 Rôl y farnwriaeth

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd annibyniaeth farnwrol a dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a phwerau’r farnwriaeth.

Er bod rhai o’r farn bod y cyhoedd yn ymwybodol o annibyniaeth farnwrol fel egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol, teimlai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr fod dealltwriaeth y cyhoedd o rôl, pwerau ac annibyniaeth y farnwriaeth yn gyfyngedig. Mynegodd academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn benodol bryderon ynghylch camsyniadau’r cyhoedd ynghylch rôl ac annibyniaeth barnwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod achosion uchel eu proffil a dramâu teledu yn llywio barn y cyhoedd, ond nid oedd gwaith y llysoedd o ddydd i ddydd yn cael ei ddeall. Cyfeiriodd un academydd at ymchwil a oedd yn dangos bod sylwadau dedfrydu yn glir ac yn hawdd eu deall, ar y cyfan, ond roedd elfennau eraill

o'r rôl farnwrol yn parhau'n aneglur. Nododd academydd arall y diffyg eglurder ynghylch y gwahanol brosesau cwyno ar gyfer gwahanol rannau o'r system gyfiawnder. Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig defnyddwyr y llys, yn ategu hyn, gan ddadlau bod diffyg gwybodaeth ynghylch sut mae cwyno am ymddygiad barnwr.

Roedd cytundeb cyffredinol ymysg yr ymatebwyr bod angen gwneud mwy o waith i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd am bwerau, cyfrifoldebau ac annibyniaeth farnwrol. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n gyson i ddefnyddwyr y llysoedd, gan ychwanegu y dylai unrhyw wybodaeth am y farnwriaeth fod yn hawdd ei deall ac y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddi. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr ymosodiadau gwleidyddol a'r ymosodiadau gan y cyfryngau ar rôl y farnwriaeth a oedd, yn eu barn nhw, yn niweidiol i wella dealltwriaeth y cyhoedd. Roedd rhai academyddion yn galw am fwy o amlygrwydd i wahaniaethau rôl barnwr ar draws gwahanol awdurdodaethau.

Roedd rhai ymatebion gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol a chymdeithasau yn canolbwyntio'n benodol ar Dribiwnlysoedd Cyflogaeth gan nodi y gallai gwybodaeth am brosesau a phwerau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, yn ogystal ag annibyniaeth barnwyr, gael ei hegluro'n well i'r cyhoedd er mwyn iddynt eu deall yn well. Tynnodd un ymatebydd sylw at ymdrechion Llywydd y Tribiwnlys Cyflogaeth i wella dealltwriaeth y cyhoedd o brosesau'r llys a phwerau barnwrol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r farnwriaeth yn hanfodol i feithrin mwy o hyder yn y system gyfiawnder yn fwy cyffredinol.

## 1.3 System gyfiawnder agored a thryloyw

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod egwyddorion cyffredinol cyfiawnder agored yn ddigonol ond, yn ymarferol, bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau system gyfiawnder agored a thryloyw.

Nododd rhai ymatebwyr, sef academyddion, fod gallu'r cyhoedd i ddeall y system gyfiawnder wedi'i gyfyngu yn sgil diffyg gallu i gael mynediad at ddata a dyfarniadau yn yr un modd ag academyddion neu'r rheini sydd â mynediad at wasanaethau ar-lein y telir amdanynt (fel Westlaw UK).

Yn yr un modd, tynnodd ymatebwyr gan gynnwys cynrychiolwyr o'r cyfryngau, grwpiau cymdeithas sifil a defnyddwyr llysoedd sylw at nifer o rwystrau ymarferol i gael system gyfiawnder gwbl agored a thryloyw, yn bennaf o ran y dull amrywiol a ddefnyddir gan wahanol lysoedd a'r diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gallu cael gafael ar yr wybodaeth a sut. Bu i nifer o ymatebwyr grybwyll a thynnu sylw at llysoedd teulu yn hyn o beth.

Bu i ymatebwyr eraill, sef gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, gydnabod bod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod y system gyfiawnder yn fwy tryloyw, ond bod angen gwneud mwy byth i symud y system gyfiawnder i'r oes ddigidol. Teimlwyd bod cyfleoedd gwych ar gyfer mwy o wrandawiadau o bell, ffrydio byw, a digideiddio dogfennau mewn ffordd hygyrch.

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch digideiddio'r system gyfiawnder a'r cynnig i ddatrys problemau y tu allan i'r llys lle bo hynny'n bosibl. Roeddent yn tynnu sylw at bwysigrwydd data da er mwyn gallu craffu ar y system gyfiawnder y tu allan i lys traddodiadol.

Roedd materion amrywiol a godwyd yn yr adran hon yn ymwneud â phynciau penodol sy'n cael sylw mewn rhan arall o'r Alwad am Dystiolaeth, felly maent wedi'u cofnodi o dan y penawdau perthnasol (ee cyfyngiadau adrodd, mynediad at ddogfennau a gwybodaeth ac ati).

## 1.4 Ymgysylltu parhaus

Cynigiodd ymatebwyr amrywiaeth o syniadau ynghylch y ffordd orau i'r llywodraeth barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ac arbenigwyr ar ddatblygu a gweithredu polisi cyfiawnder agored.

O ran y llywodraeth a'r llysoedd yn casglu tystiolaeth i ddeall y materion sy'n ymwneud â chyfiawnder agored a thryloywder, awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys:

- Mwy o ymgynghoriadau cyhoeddus a chyfleoedd i ddarparu tystiolaeth yn y dyfodol;
- Defnyddio technoleg yn well, gan gynnwys arolygon a chyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Sefydlu grwpiau amlddisgyblaethol fel cyfarfodydd bwrdd crwn, fforymau, paneli a phwyllgorau;
- Defnyddio grwpiau ymgysylltu â defnyddwyr yn well, yn enwedig defnyddwyr llys agored i niwed;
- Datblygu metrigau i olrhain cynnydd yn erbyn amcanion cyfiawnder agored a thryloywder;
- Adroddiadau cynnydd gan y llywodraeth ar gyfiawnder agored a thryloywder gyda chyfleoedd i gael adborth gan randdeiliaid allanol;
- Ymchwil i gymariaethau rhyngwladol er mwyn defnyddio arferion gorau yn fyd-eang; a
- Defnyddio meysydd eraill y gellir eu trosglwyddo i gyd-destun cyfiawnder, er enghraifft, menter Deall Data Cleifion ym maes gofal iechyd.

O ran gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder a sicrhau cyfiawnder agored a thryloywder yn ymarferol, awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys:

- Data llys o ansawdd gwell i sbarduno ymchwil a gwella atebolrwydd;
- Cyhoeddi adnoddau addysgol a lansio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n siarad â phoblogaeth amrywiol;
- Cyhoeddi deunyddiau iaith syml ar gyfer y cyhoedd ar gyfraith ac arferion cyfiawnder agored; a
- Sicrhau bod egwyddorion cyfiawnder agored a thryloywder yn cael eu hymgorffori mewn newidiadau i'r system gyfiawnder wrth i'r rhain gael eu cynllunio a'u dylunio.

## 1.5 Blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod mwy i'w wneud o ran cynnal egwyddor cyfiawnder agored a bod angen i hyn fod ar gyfer y system gyfiawnder gyfan, nid yn unig yr hyn sy'n digwydd yn y llys.

Roedd llawer o'r meysydd blaenoriaeth a godwyd gan ymatebwyr yn ymdrin â'r pynciau a gwmpesir yn y Cais hwn am Dystiolaeth, gan gynnwys mynediad at ddata cywir a chadarn, cyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau, mynediad at staff llysoedd a thribiwnlysoedd (i ddelio â cheisiadau ac ymholiadau), cynyddu mynediad drwy ddarlledu a recordio, adroddiadau'r llys a chyfyngiadau adrodd. Felly, maent wedi cael sylw yn yr adrannau perthnasol yn y ddogfen hon.

O ran materion nad ymgynghorwyd yn benodol arnynt yn yr Alwad hwn am Dystiolaeth, soniodd rhai ymatebwyr am y cyfrinachedd canfyddedig yn y llys teulu, gan godi hyn fel awdurdodaeth allweddol y dylai'r llywodraeth geisio ei gwella a chynnal ei thryloywder. Mynegodd amryw o academyddion a grwpiau cymdeithas sifil bryderon fod y diffyg craffu yn y llysoedd teulu, a'r defnydd o arbenigwyr hunanddatganedig, yn golygu nad oedd materion yn ymwneud â cham-drin domestig yn cael eu deall yn iawn gan arwain at ganlyniadau ar gyfer achosion yn ymwneud â phreswyliad plant. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod cyfrinachedd canfyddedig yr awdurdodaeth teulu yn galluogi'r llysoedd i fod â gogwydd systematig yn erbyn menywod.

Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau dros yr angen i ailfeddwl beth mae cyfiawnder agored a thryloywder yn ei olygu mewn byd ar-lein. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol lle gallai'r cyhoedd roi sylwadau ar achosion gweithredol ar-lein a thorri cyfyngiadau adrodd yn ddiarwybod. Soniodd rhai sefydliadau cyfryngau am orddefnyddio cyfyngiadau adrodd a gorchmynion cuddio enw heb ddigon o gyfle i herio'r rhain. Mewn byd o flogwyr byw a thrydarwyr byw,

roedd rhai grwpiau cymdeithas sifil yn dadlau y dylai sylwebyddion eraill gael yr un mynediad â chyfryngau traddodiadol.

Teimlai rhai ymatebwyr, sef academyddion, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, a'r cyfryngau, fod angen mwy o eglurder ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganllawiau dedfrydu a sut mae barnwyr ac ynadon yn defnyddio'r canllawiau i wneud eu penderfyniadau. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn arwain at fwy o ymddiriedaeth a hyder ymysg y cyhoedd yn y system gyfiawnder.

# 2. Rhestrau

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 6:** A yw’n ddefnyddiol i chi bod rhestrau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu cyhoeddi ar-lein a beth ydych chi’n defnyddio’r wybodaeth hon ar ei gyfer? | **68 (52%)** |
| **Cwestiwn 7:** Ydych chi’n credu y dylid cael unrhyw gyfyngiadau ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y rhestrau cyhoeddedig hyn (er enghraifft, enwi pob parti)? | **62 (47%)** |
| **Cwestiwn 8:** Eglurwch a ydych chi’n teimlo y gellid gwella’r ffordd y mae cyfyngiadau adrodd yn cael eu rhestru ar hyn o bryd. | **46 (35%)** |
| **Cwestiwn 9:** Ydych chi’n bwriadu neu ydych chi wrthi’n datblygu gwasanaethau neu nodweddion newydd ar sail mynediad at restrau’r llys cyhoeddus? Os felly, i bwy ydych chi’n ei ddarparu a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn? | **21 (16%)** |
| **Cwestiwn 10:** Pa wasanaethau neu nodweddion fyddech chi’n eu datblygu pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar yr amod bod y gwasanaethau neu’r nodweddion dan sylw at ddefnydd aelodau achrededig o’r cyfryngau yn unig? | **20 (15%)** |
| **Cwestiwn 11:** Pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar gyfer defnyddio sefydliadau trydydd parti i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau neu nodweddion fel y gwelant orau, sut byddech chi’n defnyddio’r data hwn, i bwy fyddech chi’n ei ddarparu, a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn? | **16 (12%)** |

## 2.1 Rhestrau ar-lein

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi cyhoeddi rhestrau ar-lein ac yn cydnabod budd sicrhau cyfiawnder agored a thryloywder pan fydd rhestrau’n weladwy i’r cyhoedd.

Canfu ymatebwyr, yn enwedig o’r cyfryngau a grwpiau cymdeithas sifil, fod rhestrau ar-lein yn ddefnyddiol i gadw golwg ar achosion penodol ac i bennu budd cyhoeddus posibl achosion ar sail y manylion. Teimlai’r ymatebwyr hyn y dylai rhestrau effeithiol helpu wrth gysylltu â staff y llys i ofyn am wybodaeth a chael mynediad at wrandawiadau o bell.

Nodwyd bod rhai grwpiau, y cyfryngau a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn bennaf, yn cael mynediad at restrau llys y goron ymlaen llaw, tra bod eraill ond yn cael mynediad at restrau ar ddiwrnod y gwrandawiad a all gyfyngu ar eu gallu i fod yn bresennol.

Roedd rhestrau tribiwnlysoedd cyflogaeth ar-lein yn benodol yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol gan gwmnïau cyfreithiol i ganfod partïon heb gynrychiolaeth ac i gynnig gwasanaethau cyfreithiol. Nodwyd hefyd y gallai hawlwyr ddefnyddio rhestrau ar-lein i ganfod achosion tebyg i’w rhai nhw a gwneud ceisiadau i gyfuno achosion.

Nododd rhai ymatebwyr, sef academyddion, cynrychiolwyr y cyfryngau, a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, eu bod yn defnyddio rhestrau i gynnal dadansoddiad ystadegol a chael cipolwg ar amseroedd a pherfformiad y llysoedd, yn ogystal â thueddiadau dros amser, tra bod eraill, fel ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, yn eu defnyddio i nodi achosion tebyg i’w rhai nhw eu hunain ac i arsylwi’r achosion.

## 2.2 Gwybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y rhestrau

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar faint o wybodaeth oedd yn cael ei chynnwys yn y rhestrau ar hyn o bryd ac nid oeddent yn cefnogi cyfyngiadau pellach. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod bod achosion lle gallai datgelu data personol yn gyhoeddus beri risgiau, fel targedu partïon a ‘threial drwy gyfryngau cymdeithasol’ o ran achosion sy’n denu cryn ddiddordeb cyhoeddus, ac felly dylid ystyried cuddio enwau unigolion.  Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod gwybodaeth sydd wedi’i chynnwys mewn rhestrau ar-lein, yn enwedig data personol, yn peri risgiau i’r partïon dan sylw. Aeth ati i gynghori yn erbyn rhoi manylion a allai arwain at ddial neu at bartïon yn cael eu hadnabod ac o bosibl eu niweidio.

Roedd rhai cynrychiolwyr y cyfryngau, yn gwerthfawrogi’r gwahaniaethu rhwng rhestrau cyhoeddus ac is-set o restrau sydd ar gael i ddefnyddwyr dilys fel gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a’r cyfryngau achrededig. Teimlai’r rhan fwyaf o gynrychiolwyr y cyfryngau, oni bai fod y barnwr wedi rhoi cyfyngiadau adrodd penodol ar waith, y dylid cynnwys enwau’r diffynyddion mewn achosion ar draws gwahanol awdurdodaethau mewn rhestrau cyfryngau. Rhoddodd un ymatebydd enghraifft lle nad oedd modd olrhain achos lle’r oedd enw diffynnydd wedi’i gelu.

Roedd gan ymatebwyr eraill safbwyntiau cymysg ynghylch lefel yr wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn rhestrau, yn enwedig o ran cyhoeddi enwau a chyfeiriadau partïon

(diffynyddion, dioddefwyr a thystion). Roedd rhai ymatebwyr, grwpiau cymdeithas sifil ac academyddion yn bennaf, yn cefnogi diogelu manylion adnabod diffynyddion, yn enwedig gwybodaeth fel eu cyfeiriadau, er mwyn atal y teulu neu'r gymuned lle maent yn byw rhag cael gormod o sylw yn y cyfryngau, ac i gynnal uniondeb yr achos cyfreithiol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch gwahaniaethu posibl yn erbyn partïon diniwed a chyfiawnder 'vigilante'. Teimlai grwpiau cymdeithas sifil, academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, yn benodol, hefyd na ddylid cynnwys enwau tystion mewn rhestrau er mwyn atal achosion o ymyrryd â thystion ac er mwyn eu hamddiffyn yn gyffredinol. Teimlai cymdeithasau cyfreithiol a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol y dylid rhestru enwau cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â gwrandawiadau bob amser.

Mewn cyferbyniad, cynigiodd rhai academyddion fod cynnwys manylion ychwanegol mewn rhestrau cyhoeddedig yn gallu arwain at ymchwil ehangach a'u bod yn galluogi myfyrwyr i nodi'r mathau mwyaf perthnasol o wrandawiad ar gyfer eu hastudiaethau.

## 2.3 Cyfyngiadau adrodd

Mynegodd nifer o grwpiau ymatebwyr, gan gynnwys cymdeithasau cyfreithiol, grwpiau cymdeithas sifil a chynrychiolwyr y cyfryngau, yr awydd i gael cronfa ddata ganolog o gyfyngiadau adrodd. Teimlent mai'r brif fantais fyddai cynyddu effeithlonrwydd gan fod llawer ohonynt ar hyn o bryd yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn darganfod pa gyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer achos penodol. Fe wnaethant hefyd nodi y byddai cael gwybod yn glir am fodolaeth a chwmpas unrhyw gyfyngiadau yn helpu i osgoi achosion posibl o dorri rheolau.

Mater cyffredin a godwyd gan yr ymatebwyr oedd yr angen am fwy o gysondeb yn y ffordd yr oedd cyfyngiadau adrodd yn cael eu cyfleu yn y llys ac mewn rhestrau. Disgrifiodd rhai ymatebwyr nad oedd y derminoleg a ddefnyddiwyd bob amser yn glir, a bod cyfeirio at gyfyngiadau adrodd yn aml yn amwys. Er enghraifft, mae termau fel 'arferol' neu 'awtomatig' (neu 'breifat' yn y Llys Gwarchod fel y nodwyd gan un ymatebydd) yn tybio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli am gyfyngiadau adrodd ac nid ydynt yn rhoi cyfarwyddyd i ddefnyddiwr llys ar ba gyfyngiadau sydd ar waith a beth maent yn ei olygu.

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oes gan staff y llys, weithiau, yr wybodaeth am gyfyngiadau adrodd wrth law neu nad yw ar gael yn brydlon. Rhoddodd nifer o gynrychiolwyr y cyfryngau enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gwnaethant dreulio amser anghymesur yn ceisio cadarnhau bodolaeth cyfyngiadau adrodd ar achos penodol, gydag un ymatebydd yn nodi cyfnod aros o 12 diwrnod i gael cadarnhad o gyfyngiad adrodd.

Mynegodd ymatebwyr eraill, sef cymdeithasau cyfreithiol, fod angen ystyried bod y gynulleidfa ar gyfer cyfyngiadau adrodd yn ehangach na'r cyfryngau traddodiadol gan fod blogwyr cyfreithiol a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol hefyd yn adrodd ar achosion llys.

Roedd galw hefyd gan ymatebwyr am fwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd ynghylch cyfyngiadau adrodd, gan gynnwys y rhesymau pam y gellid eu rhoi ar waith ac eglurder ynghylch y goblygiadau pe caent eu torri.

## 2.4 Gwasanaethau neu nodweddion posibl yn seiliedig ar fynediad at restrau llysoedd cyhoeddus

Nododd rhai ymatebwyr, sef y byd academaidd a sector Technoleg y Gyfraith, ddiddordeb mewn data rhestrau ac awgrymwyd syniadau posibl ar gyfer arloesi ac atebion technolegol y gellid eu datblygu ar sail y data, er enghraifft, er mwyn gallu nodi tueddiadau mewn ymgyfreitha a mesur gweithgarwch barnwrol.

Roedd un ymatebydd o sector Technoleg y Gyfraith o'r farn na ddylai'r llywodraeth geisio datblygu cynnyrch soffistigedig ac mai dim ond at rannau penodol o'r data y dylid rhoi mynediad (yn hytrach na mynediad at y data i gyd) er mwyn caniatáu i gwmnïau allanol ddatblygu cynnyrch.

Dywedodd ymatebydd arall o'r sector hwn eu bod yn annhebygol o ddatblygu rhagor o wasanaethau neu nodweddion os yw mynediad at wybodaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig i grwpiau defnyddwyr penodol (ee y cyfryngau). Nid oeddent yn credu bod cyfyngiad o'r fath yn cyd-fynd ag egwyddorion cyfiawnder agored.

Dywedodd rhai ymatebwyr, sef grwpiau cymdeithas sifil, y byddent yn croesawu datblygu gwasanaethau data agored ac am ddim i wella dealltwriaeth y cyhoedd o lysoedd a mynediad atynt.

Teimlai cynrychiolwyr y cyfryngau y byddai canoli rhestrau yn ei gwneud yn haws cydlynu darpariaeth ac adroddiadau llysoedd.

## 2.5 Argaeledd rhestrau, gwasanaethau posibl a defnydd trydydd parti

Cyfeiriodd ymatebwyr at rai enghreifftiau o adnoddau sy'n cael eu datblygu neu a fyddai'n cael eu datblygu i helpu gwahanol randdeiliaid i olrhain achosion drwy'r system neu i gynnal math o ddadansoddiad ystadegol ar gyfer gwybodaeth am berfformiad. Roeddent yn nodi diddordeb gan gwmnïau cyfreithiol ac yn gweld potensial ar gyfer datblygu cynnyrch i gefnogi cwmnïau cyfreithwyr gyda'u gwaith. Cyfeiriodd un ymatebydd o sector Technoleg y Gyfraith at yr Unol Daleithiau fel enghraifft o awdurdodaeth lle mae cynhyrchion a gwasanaethau'n cael eu datblygu trwy ddefnyddio data o gofnodion y llysoedd.

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylai rhestrau cyfryngau breintiedig fod ar gael i nifer o grwpiau proffesiynol lle ceir safonau preifatrwydd. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a grwpiau cymdeithas sifil, o'r farn bod y gofyniad i gofrestru â gwasanaethau trydydd parti er mwyn cael gafael ar wybodaeth am restrau yn rhwystr ac y dylai rhestrau llys fod ar gael am ddim ac yn rhwydd i'r cyhoedd.

Dywedodd ymatebydd o gymdeithas gyfreithiol y byddai'n gwrthwynebu gwerthu data cyhoeddus at ddefnydd masnachol gan gwmnïau trydydd parti, pe bai hynny'n cael ei gynnig, ar y sail bod cyhoeddi rhestrau yn wasanaeth cyhoeddus.

O ran hygyrchedd, soniwyd bod angen darparu rhestrau yn Gymraeg.

# 3. Mynediad at y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 12:** Ydych chi'n ymwybodol bod gwasanaeth FaCT yn eich helpu i ddod o hyd i'r manylion cyswllt cywir ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd unigol? | **44 (33%)** |
| **Cwestiwn 13:** A oes unrhyw beth arall y gallai gwasanaethau digidol fel FaCT ei gynnig i'ch helpu i gael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd? | **33 (25%)** |

## 3.1 Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Dod o hyd i Lys neu Dribiwnlys (FaCT)

Er bod adborth cymysg gan ymatebwyr ynghylch ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth FaCT, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth. O'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth, dywedodd ymatebwyr ei fod yn ddefnyddiol ac roedd un grŵp cymdeithas sifil yn benodol, yn falch bod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.

Dywedodd rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eu bod hefyd yn defnyddio Gov.uk, Google a pheiriannau chwilio eraill i ddod o hyd i wybodaeth am lysoedd a thribiwnlysoedd.

## 3.2 Gwasanaethau digidol ar gyfer cael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd

Cododd rhai ymatebwyr broblemau gyda gwasanaeth FaCT, gan nodi ei fod yn cynnwys gwybodaeth anghywir neu annigonol. Er enghraifft, dywedodd dau ymatebydd fod cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd yn aml yn anghywir, ac roedd un ymatebydd o'r byd academaidd yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i arsylwyr ynghylch sut mae cysylltu â llys i wirio gwybodaeth am restrau, i gael manylion cyfyngiadau adrodd neu i wneud cais am wybodaeth am wrandawiad o bell.

Cynigiodd yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau ynghylch beth y gallai gwasanaethau digidol, fel FaCT, ei gynnig i helpu i gael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dolen i restrau fel rhan o wasanaeth FaCT;
- Cyfeiriadau e-bost ar gyfer cysylltiadau penodol (yn hytrach na chyfeiriadau e-bost cyffredinol, a all gymryd diwrnodau i ymateb);
- Mynediad at ddogfennau achos neu dystiolaeth sy’n gysylltiedig â’r achos;
- Ymgorffori diweddariadau amser real ar restrau llysoedd a hynt achosion;
- Darparu canllawiau cliriach a haws eu defnyddio ar gyfer cael mynediad at wrandawiadau o bell a chyflwyno dogfennau’n electronig, er mwyn helpu i wneud y broses yn haws i ymgyfreithwyr;
- Cynnwys enwau barnwyr / aelodau panel ar gyfer tribiwnlysoedd haen gyntaf;
- Gwybodaeth am beth i’w ddisgwyl gan y mathau o lysoedd/tribiwnlysoedd dan sylw ac a yw pob gwrandawiad yn agored;
- Adnodd sgwrsio byw;
- Ychwanegu opsiwn ‘hidlo yn ôl math o lys’ at y swyddogaeth chwilio;
- Taith drwy lys/tribiwnlys fel bod y rhai sy’n bresennol yn gwybod beth i’w ddisgwyl; a
- Gwybodaeth am bob dull o deithio i’r llys/tribiwnlys, a chyfarwyddiadau i’r rheini y gallai fod angen cyfleusterau ychwanegol arnynt (ee pobl ag anableddau, pobl sy’n mynychu gyda phlant ac ati).

# 4. Arsylwi o Bell a Ffrydio Byw

| **Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| **Cwestiwn 14:** Beth yw eich barn gyffredinol am fanteision a risgiau caniatáu ar gyfer arsylwi o bell a ffrydio achosion llys agored yn fyw ac ar gyfer beth gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol? | **79 (60%)** |
| **Cwestiwn 15:** Ydych chi’n credu y dylid caniatáu i bob aelod o’r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau llys a thribiwnlys agored o bell? | **59 (45%)** |
| **Cwestiwn 16:** Ydych chi’n credu y dylai’r cyfryngau allu mynychu pob achos llys agored o bell? | **62 (47%)** |
| **Cwestiwn 17:** Ydych chi’n credu y dylai pob gwrandawiad llys agored ganiatáu ar gyfer ffrydio byw ac arsylwi o bell? A fyddech chi’n eithrio unrhyw fathau o wrandawiadau llys rhag ffrydio byw ac arsylwadau o bell? | **51 (39%)** |
| **Cwestiwn 18:** A fyddech chi’n gosod cyfyngiadau ar adrodd ar achosion llys? Os felly, pa achosion a pham? | **55 (42%)** |
| **Cwestiwn 19:** Ydych chi’n meddwl bod unrhyw fathau o adeiladau a fyddai’n arbennig o ddefnyddiol i wneud safle ffrydio byw dynodedig? | **40 (30%)** |
| **Cwestiwn 20:** Sut gallai’r broses o gael mynediad at wrandawiad arsylwi o bell fod yn haws i’r cyhoedd a’r cyfryngau? | **61 (46%)** |

## 4.1 Manteision a risgiau arsylwi o bell a ffrydio byw

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at fanteision arsylwi o bell a ffrydio byw sy’n cyfrannu at wella cyfiawnder agored. Roeddent yn cydnabod bod gallu arsylwi achosion o bell yn arwain at fwy o dryloywder a hygyrchedd yn enwedig ar gyfer gofalwyr, pobl ag anghenion ychwanegol, yn ogystal â’r rheini nad ydynt wedi’u lleoli ger y llysoedd a’r tribiwnlysoedd lle mae achosion yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, o ran arsylwi o bell, nododd ymatebwyr fod hyn yn amodol ar sicrhau bod yr ystad yn meddu ar y dechnoleg briodol sy’n darparu ansawdd clyweledol da a digon o staff llys i ddelio â cheisiadau am arsylwi o bell.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith bod gallu gwylio gwrandawiadau o bell yn cynnig opsiwn mwy effeithlon o ran cost ac amser i unigolion. Soniodd rhai ymatebwyr fod arsylwi o bell hefyd yn golygu bod modd goruchwylio’r system gyfiawnder yn well a’i bod

yn haws i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ymgyfarwyddo â phroses y llys. Nododd rhai ymatebwyr fod darparu trefniadau arsylwi o bell yn gallu darparu ar gyfer mwy o arsylwyr, yn enwedig mewn achosion sy'n denu llawer o ddiddordeb. Gall hyn yn ei dro fod yn ffordd well o ddefnyddio adnoddau'r llys.

Tynnodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai o'r byd academaidd, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sylw at fanteision arsylwi o bell ar gyfer adroddiadau'r llys, gan alluogi mwy o oruchwyliaeth a sylw ehangach. Nododd cynrychiolwyr y cyfryngau, gyda llai o newyddiadurwyr yn gwasanaethu llysoedd, fod arsylwi o bell yn caniatáu i newyddiadurwyr gael mynediad at sbectrwm ehangach o wrandawiadau yn lleol ac yn genedlaethol. Aethant ati i ddweud bod arsylwi o bell yn galluogi newyddiadurwyr i ymdrin â nifer o wrandawiadau ar draws amrywiaeth o leoliadau mewn un diwrnod. Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr y cyfryngau hefyd nad yw'n hawdd gwneud sylwadau ac adrodd ar yr awyrgylch yn y llys pan fyddant yn mynychu o bell felly roeddent o'r farn bod yn rhaid i'r opsiwn o fynychu llysoedd wyneb yn wyneb barhau.

Wrth nodi manteision a risgiau, roedd ymatebwyr yn cydnabod effaith bosibl arsylwi o bell ar ddioddefwyr a thystion. Ar un llaw, roeddent yn nodi bod arsylwi o bell yn rhoi'r opsiwn i ddioddefwyr arsylwi achosion heb fod angen bod yn bresennol wyneb yn wyneb - rhywbeth allai fod yn anodd iddynt ar adegau. Fodd bynnag, soniodd llawer o ymatebwyr am risgiau hefyd ynghylch effeithiau anfwriadol arsylwi o bell ar bartïon, yn enwedig dioddefwyr a thystion agored i niwed a allai deimlo dan fygythiad, gan effeithio ar eu gallu i roi tystiolaeth neu gymryd rhan yn y gwrandawiad. Holodd ymatebwyr a allai arsylwi o bell arwain at fwy o geisiadau am orchmynion cuddio enw neu fesurau arbennig a allai, yn y pen draw, wneud y system gyfiawnder yn llai agored a thryloyw.

Yn ogystal â'r effaith bosibl ar ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed, cododd ymatebwyr hefyd rai risgiau eraill o ran arsylwi o bell. Roedd y rhain yn cynnwys y risg i breifatrwydd pe bai gwybodaeth sensitif yn cael ei rhannu ar-lein, gan roi'r hawl i dreial teg yn y fantol pe bai partïon yn gweld sesiynau tystiolaeth cyn cymryd rhan eu hunain. Soniodd ymatebwyr am y risg o eithrio grwpiau penodol gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau neu'r rheini sydd heb fynediad at adnoddau digidol. Am y rhesymau hyn, teimlai ymatebwyr ei bod yn bwysig cynnal y ddarpariaeth arsylwi wyneb yn wyneb mewn llysoedd a thribiwnlysoedd.

Rhybuddiodd ymatebwyr hefyd am y potensial i arsylwyr o bell recordio gwrandawiadau'n anghyfreithlon a'u golygu i gamliwio'r achos. Awgrymodd ymatebwyr fesurau lliniaru ar gyfer mynd i'r afael â'r risg hon, er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg i olrhain a yw recordiadau neu sgrinluniau'n cael eu gwneud, casglu enwau'r arsylwyr, ac amlygu rheolau dirmyg llys ac unrhyw gyfyngiadau adrodd. Cafodd ymddygiad amhriodol gan arsylwyr o bell ei godi fel mater hefyd. Rhannodd un gymdeithas farnwrol eu profiadau o arsylwyr yn ysgrifennu sylwadau amhriodol ar y Llwyfan Fideo Cwmwl ac yn rhoi enwau ffug.

## 4.2 Mynediad at arsylwi gwrandawiadau o bell

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno’n gyffredinol y dylai gwrandawiadau llys neu dribiwnlys agored gynnig arsylwi o bell i’r cyhoedd, ac y dylai’r un rheolau a ddefnyddir yn y llys neu’r tribiwnlys gael eu rhoi ar waith ar-lein gyda mesurau diogelu priodol. Roeddent o’r farn ei bod yn bwysig i arsylwyr o bell fod yn ymwybodol o’r rheolau ar ddirmyg llys ac unrhyw gyfyngiadau adrodd sydd ar waith.

Awgrymodd un cynrychiolydd y cyfryngau, wrth i ni fynd i fyd sy’n dod yn fwyfwy digidol, y dylem gynnig mynediad at arsylwi o bell i’r cyhoedd fel hawl. Teimlai ymatebwyr eraill, sef cymdeithasau cyfreithiol, mai dim ond pan fo hynny er budd cyfiawnder neu pan fo galw cyhoeddus clir y dylid ei gynnig, yn enwedig o ystyried y goblygiadau cost ychwanegol i’r llysoedd. Wrth benderfynu ar geisiadau am fynediad at arsylwi o bell, tynnodd ymatebwyr, gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a chynrychiolwyr o sector Technoleg y Gyfraith, sylw at y ffaith bod angen cadw disgresiwn barnwrol ym mhob achos. Roedd hyn ar y sail mai barnwyr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch priodoldeb arsylwi o bell. Fodd bynnag, gan gydnabod bod penderfyniadau barnwrol unigol yn gallu arwain at anghysondebau, gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o dryloywder ynghylch sut mae’r penderfyniadau barnwrol hyn yn cael eu gwneud ac unrhyw feini prawf a ddefnyddir i lywio’r broses o wneud penderfyniadau.

Nododd academyddion anghysondebau yn yr wybodaeth y gofynnwyd amdani gan unigolion sy’n gwneud ceisiadau am arsylwi o bell. Gofynnir iddynt yn aml am ‘reswm dros fod yn bresennol’. Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno â’r dull hwn oherwydd y risgiau cynyddol sy’n gysylltiedig ag arsylwi o bell, roedd rhai yn teimlo na ddylid gofyn hyn gan nad oes rhaid i arsylwyr wyneb yn wyneb roi rheswm dros eistedd yn yr oriel gyhoeddus.

Roedd barn yr ymatebwyr ynghylch a ddylai’r cyfryngau allu mynychu pob achos llys agored o bell yn amrywio. Ar hyn o bryd, ar y sail bod gohebwyr llys yn cael hyfforddiant ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei adrodd, a’u bod yn gweithredu o dan god ymarfer, mae gan gyfryngau achrededig hawliau ychwanegol i arsylwi rhai gwrandawiadau (o bell ac wyneb yn wyneb) nad oes gan y cyhoedd hawl i’w mynychu. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, cymdeithasau cyfreithiol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn cytuno â’r safbwynt hwn. Roedd rhai grwpiau cymdeithas sifil hefyd o blaid rhoi mwy o fynediad o bell i’r cyfryngau o ystyried manteision adroddiadau llys. Fodd bynnag, teimlai eraill fod hyn yn creu hierarchaeth o arsylwyr ac y gallai fod yn anghyson ag egwyddor cyfiawnder agored. Nodwyd bod mynediad y cyhoedd at wybodaeth yn gyfyngedig ac yn anghyfartal mewn achosion lle mae papurau newydd cenedlaethol yn gofyn am danysgrifiadau â thâl i gael gafael ar fanylion adroddiad.

Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn gynrychiolwyr y cyfryngau ‘heb eu hachredu’ yn teimlo y dylai mynediad i’r cyfryngau fod yn fwy hyblyg, gan awgrymu y dylid caniatáu i

aelodau heb eu hachredu fel newyddiadurwyr dinasyddion a sylwebwyr cyfreithiol wneud ceisiadau am well mynediad.

Tynnodd ymatebwyr sylw’n aml at y ffaith y dylai achosion sy’n ymwneud â phlant, materion iechyd meddwl, ymosodiadau rhywiol a thrais domestig gael eu heithrio o’r broses arsylwi o bell. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am ddisgresiwn barnwrol a’r angen i farnwyr gydbwyso manteision arsylwi o bell â ffactorau pwysig eraill fel preifatrwydd ac ailsefydlu.

## 4.3 Cyfyngiadau adrodd

Roedd rhai ymatebwyr, sef cynrychiolwyr y cyfryngau ac academyddion, yn teimlo bod y system bresennol ar gyfer cyfyngiadau adrodd yn gweithio’n dda ac roeddent yn fodlon y dylid gosod cyfyngiadau lle’r oedd sail resymol dros wneud hynny. Ymysg y rhesymau addas dros osod cyfyngiadau adrodd, rhestrodd yr ymatebwyr y canlynol:

- Diogelu’r hawl i dreial teg;
- Diogelu pwy yw pobl ifanc dan oed;
- Diogelu unigolion rhag trais neu gamdriniaeth wedi’i thargedu; a
- Gwarchod gwybodaeth sensitif sy’n ymwneud â diogelwch cenedlaethol.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod cyfyngiadau adrodd yn faes cyfreithiol sy’n datblygu ac y byddent yn debygol o newid yn y dyfodol.

Nododd ymatebwyr, gan gynnwys grwpiau cymdeithas sifil, mai dim ond i’r graddau sy’n angenrheidiol y dylid caniatáu cyfyngiadau adrodd ac mewn llawer o achosion, gellid bodloni hyn drwy osod cyfyngiadau am gyfnod penodol neu ohirio adrodd am wybodaeth benodol, yn hytrach na chyflwyno gorchmynion cuddio enw cyffredinol. Ar y pwynt hwn, roedd rhai cynrychiolwyr y cyfryngau’n teimlo bod cyfyngiadau adrodd yn cael eu caniatáu’n rhy hawdd, gan nodi tuedd o guddio enw tystion er mwyn ‘cael y dystiolaeth orau’.

Nododd ymatebwyr, mewn cyd-destun lle mae cynnydd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer adrodd, nad yw’r cyfyngiadau bob amser yn cael eu cyflwyno’n dda na’u safoni, sy’n peri risgiau posibl. Er enghraifft, soniodd ymatebwyr, gan gynnwys academyddion, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, efallai nad yw rhai arsylwyr neu flogwyr o bell yn deall rheolau cyfreithiol na chanlyniadau postio gwybodaeth am dreialon ar y cyfryngau cymdeithasol. Dadleuodd rhai y dylid cytuno ar broses ac amserlen ar gyfer cyhoeddi drwy’r cyfryngau cymdeithasol.

## 4.4 Ehangu ffrydio byw

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylid ehangu ffrydio byw, er eu bod yn cydnabod bod hyn yn amodol ar gael technoleg briodol a digon o staff. Awgrymodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, cymdeithasau cyfreithiol a chynrychiolwyr y cyfryngau y byddai ffrydio byw yn opsiwn addas ar gyfer achosion penodol lle'r oedd mwy o ddiddordeb gan y cyhoedd.

Wrth ystyried y mathau o adeiladau a fyddai'n addas ar gyfer gwneud safleoedd ffrydio byw 'dynodedig', awgrymodd ymatebwyr fod llyfrgelloedd, eglwysi, ystafelloedd llys presennol, adeiladau prifysgolion (neuaddau darlithoedd), ystafelloedd dosbarth, neuaddau tref, canolfannau cymunedol a sinemâu yn opsiynau posibl.

## 4.5 Ystyriaethau gweithredol

Cododd ymatebwyr amrywiaeth o ystyriaethau gweithredol a allai helpu i sicrhau bod arsylwi o bell yn gweithio'n effeithiol:

- Sicrhau bod arsylwyr yn gallu cysylltu o bell yn brydlon, naill ai drwy bostio dolenni ochr yn ochr â'r rhestr neu ar wefan y llys unigol;
- Cynnwys manylion cyswllt y llys mewn rhestrau i'w gwneud yn haws i bobl ofyn am fynediad o bell;
- Safoni ffurflenni cais a gweithdrefnau i hwyluso arsylwi o bell;
- Sicrhau bod modd derbyn arsylwyr o bell i'r gwrandawiad yn ddidrafferth fel nad oes unrhyw beth yn tynnu sylw'r barnwyr;
- Bod â system ar waith fel bod cynrychiolwyr y cyfryngau yn gallu cadarnhau manylion yr achos gyda staff y llys (ee sillafu enw) ar ôl y gwrandawiad er mwyn sicrhau adroddiadau cywir;
- Ymgorffori dulliau cyfyngu ar lwyfannau o bell (ee gallu staff y llys i dewi arsylwyr) i sicrhau nad ydynt yn amharu ar wrandawiadau;
- Creu un llwyfan o bell canolog GLITEF, a fyddai'n galluogi defnyddwyr i ymgyfarwyddo â'r llwyfan; a
- Dileu'r angen i ofyn am fynediad gan lysoedd unigol drwy greu llwyfan ar-lein canolog lle gallai arsylwyr greu proffil gyda'u manylion personol a chael yr opsiwn o ddewis dolenni a ffrydiau'n awtomatig (argymhellodd ymatebydd y dylid cynnwys dull lle gallai GLITEF gyfyngu ffrydiau i rai 'proffiliau' fel y cyfryngau achrededig).

Cafwyd awgrymiadau hefyd, gan academyddion yn bennaf, i gasglu data ar nifer yr arsylwyr o bell ar draws lleoliadau ac awdurdodaethau.

# 5. Darlledu

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cwestiwn 21: Yn eich barn chi, beth yw manteision darlledu achosion llys i'r cyhoedd? | **55 (42%)** |
| Cwestiwn 22: Rhowch fanylion y mathau o achosion llys y credwch y dylid eu darlledu a pham y byddai hyn o fudd i'r cyhoedd? A oes unrhyw fathau o achosion na ddylid eu darlledu? | **57 (43%)** |
| Cwestiwn 23: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw risgiau i ddarlledu achosion llys? | **54 (41%)** |
| Cwestiwn 24: Beth yw eich barn am waharddiad 1925 ar ffotograffiaeth a gwaharddiad 1981 ar recordio sain yn y llys ac a ydynt yn dal yn addas i'r diben yn yr oes fodern? A oes technolegau eraill sy'n dod i'r amlwg lle dylem ystyried ein polisi mewn perthynas â defnydd yn y llys? | **45 (34%)** |

## 5.1 Manteision darlledu

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod bod manteision darlledu achosion llys. Yn yr un modd ag arsylwi o bell, roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod bod darlledu yn caniatáu mwy o fynediad at y system gyfiawnder, sydd yn ei dro yn hyrwyddo craffu cyhoeddus ac yn gallu gwella ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system. Nododd rhai ymatebwyr y gall darlledu gynyddu dealltwriaeth o'r system gyfiawnder, ac y gallai hyrwyddo cynnwys y cyhoedd yn y system gyfiawnder drwy feithrin dadleuon ac adborth.

Nododd ymatebwyr y gallai cael yr opsiwn o wylio achosion ar ôl iddynt gael eu cynnal fod yn ddefnyddiol i'r rheini nad ydynt yn gallu eu harsylwi yn ystod oriau'r llys.

Roedd y manteision ychwanegol darlledu a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn cynnwys: tynnu sylw'r cyhoedd at sut mae achosion o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu penderfynu, lleihau camliwio gwrandawiad gan fod arsylwyr yn gallu gweld beth sy'n digwydd, a lliniaru anghywirdeb posibl neu adroddiadau anghyflawn. Gall y manteision hyn chwalu'r mythau am achosion wedi'u dramateiddio neu gyfrinachedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod y byddai darlledu achosion yn gyhoeddus o fudd i ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth yn benodol wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r system gyfiawnder a'r broses o gynnal gwrandawiad. Gallai hefyd gynorthwyo'r rhai sy'n hyfforddi yn y proffesiwn cyfreithiol, darpar newyddiadurwyr, neu fyfyrwyr, yn ogystal â gwella ansawdd ymchwil academaidd.

## 5.2 Risgiau darlledu

Soniodd ymatebwyr am amrywiaeth o risgiau a allai godi wrth ddarlledu achosion llys, fel y risg o greu fersiwn afluniedig o ddigwyddiadau os nad yw treialon yn cael eu dangos yn eu cyfanrwydd, treialon wedi'u gorliwio, a bychanu treialon os cânt eu gwylio at ddibenion adloniant yn unig.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai achosion dirmyg llys gynyddu, gydag arsylwyr yn recordio'n anghyfreithlon, a threialon yn cael eu golygu a'u hailddosbarthu i gamliwio achos.

Cododd ymatebwyr nifer o bryderon diogelu hefyd, gan gynnwys y risgiau i breifatrwydd pe bai gwybodaeth sensitif neu fanylion personol yn cael eu datgelu i'r cyhoedd, a'r effeithiau negyddol posibl ar y rheini sy'n ymwneud â'r achos (ee tystion a'r rheithgor) sy'n teimlo dan fygythiad neu fel na allant gymryd rhan am eu bod yn ofni cael eu hadnabod. Roeddent o'r farn y gallai hyn arwain at 'effaith oeri' gyda llai o bobl yn dwyn achosion ac yn ceisio cael cyfiawnder am eu bod yn ofni cael eu hadnabod. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai hyn gynyddu'r ceisiadau am orchmynion cuddio enw neu fesurau arbennig, a allai gael effaith negyddol ar dryloywder. Awgrymodd eraill y gallai gweithwyr proffesiynol wrthod cymryd rhan mewn treialon sy'n cael eu darlledu, gan gyfeirio at risgiau posibl i ddiogelwch (ee targedu partïon neu weithwyr cyfreithiol proffesiynol).

O ran effeithiau posibl darlledu achosion llys ar adrodd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn debygol o wneud sylw neu flogio ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall hyn greu risgiau fel creu 'ail-dreial' drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac o bosibl wneud sylwadau ar achosion neu ddilysrwydd penderfyniadau barnwr.

## 5.3 Ehangu darlledu

Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai ystod eang o achosion ar draws gwahanol awdurdodaethau fod yn briodol ar gyfer darlledu. Roedd eu hawgrymiadau ar gyfer darlledu yn cynnwys:

- Gwrandawiadau yn y Llys Ynadon
- Datganiadau effaith ar ddioddefwyr yn Llys y Goron

- Treialon troseddol neu wrandawiadau dedfrydu uchel eu proffil
- Gwrandawiadau yn llysoedd y Crwner
- Cwestau uchel eu proffil
- Achosion sy'n ymwneud â materion cyhoeddus (ee materion cyfansoddiadol)
- Gwrandawiadau adolygiad barnwrol
- Gwrandawiadau estraddodi
- Achosion apeliadol a gwrandawiadau tribiwnlys uwch mewn awdurdodaethau gwahanol
- Sylwadau agoriadol a chloi yn ogystal â chrynodebau neu ddyfarniadau mewn achosion sifil (llysoedd masnachol a gweinyddol).

Roedd y mathau o lysoedd ac achosion yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn amhriodol ar gyfer darlledu yn cynnwys:

- Llysoedd ieuenctid neu unrhyw achosion sy'n ymwneud â phlant
- Gwrandawiadau llys teulu
- Tribiwnlysoedd cyflogaeth
- Achosion gyda dioddefwyr agored i niwed
- Gwrandawiadau'r Llys Gwarchod
- Achosion o gam-drin neu droseddau rhywiol
- Achosion sy'n ymwneud â materion diogelwch gwladol
- Unrhyw wrandawiad tribiwnlys gan eu bod fel arfer yn cynnwys ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

Wrth ystyried ehangu darlledu a pha fathau o achosion y dylid neu na ddylid eu darlledu, awgrymodd ymatebwyr, sef cynrychiolwyr y cyfryngau a grwpiau cymdeithas sifil, y dylai'r llywodraeth asesu effeithiau darlledu cyfredol, dysgu o brofiadau o'r fath ac yna ehangu darlledu mewn camau yn dibynnu ar ba achosion sydd fwyaf perthnasol i'r cyhoedd. Nodwyd hefyd y dylid ystyried manteision darlledu ochr yn ochr â ffactorau pwysig eraill fel gweinyddu cyfiawnder a'r effeithiau posibl ar y partïon dan sylw (er enghraifft, a fydd effeithiau dod i gysylltiad â'r llys ar y diffynnydd yn anghymesur â'r drosedd wreiddiol ac yn effeithio ar ailsefydlu).

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr, grwpiau cymdeithas sifil, y byd academaidd a'r cyfryngau yn bennaf, at enghreifftiau o arferion gorau gan gynnwys y Goruchaf Lys, gan dynnu sylw at sut maen nhw'n postio dolen i'r dyfarniadau ar eu gwefan ac yn defnyddio safle camera da. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at wledydd eraill, fel yr Alban a'r Unol Daleithiau, fel enghreifftiau o weithdrefnau darlledu da. Roeddent yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid cael cydsyniad y partïon cyn darlledu unrhyw achos yn yr Alban.

Dywedodd ymatebydd academaidd y gallai ehangu darlledu ganolbwyntio ar sut rydym yn gwella'r ddarpariaeth ddarlledu bresennol, er enghraifft, defnyddio technoleg i arddangos

dogfennau’r llys ochr yn ochr â’r gwrandawiad, gan ei gwneud yn haws i arsylwyr ddilyn achosion a gwella eu dealltwriaeth yn y pen draw.

## 5.4 Deddfwriaeth darlledu

Gan fod y mesurau sy’n gwahardd recordio sain a ffotograffiaeth eisoes wedi cael eu llacio er mwyn caniatáu ar gyfer y drefn ddarlledu bresennol, roedd rhai ymatebwyr o’r farn y dylid diwygio’r gwaharddiadau er mwyn ystyried eithriadau i’r gwaharddiadau cyffredinol.

Teimlent fod y gwaharddiadau presennol yn ychwanegu at gyfrinachedd yn y llysoedd a’u bod yn hen ffasiwn ac yn wrthgynhyrchiol i wella cyfiawnder agored.

Nododd cynrychiolwyr y cyfryngau, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, er mwyn eu helpu i wneud nodiadau a sicrhau cywirdeb adroddiadau’r llys, eu bod yn cael caniatâd gan y barnwr i recordio’r gwrandawiad ar dâp sain. Yn ôl y sôn, pur anaml mae hyn yn digwydd, ond roeddent yn awgrymu y dylai hyn fod yn fwy cyffredin neu hyd yn oed yn sefyllfa ddiofyn ar gyfer y cyfryngau achrededig er mwyn lleihau’r tebygolrwydd o wallau.

Teimlai rhai ymatebwyr hefyd y byddai dileu’r gwaharddiadau ar recordio sain yn caniatáu proses haws o gynhyrchu trawsgrifiadau, gan alluogi’r partïon a oedd yn bresennol neu’r cyfryngau i wneud trawsgrifiadau ar gyfer adroddiadau llys, yn hytrach na’r llys.

Awgrymodd ymatebwyr y dylid rhoi mwy o bwyslais ar reoleiddio cyfryngau cymdeithasol a sicrhau nad yw delweddau llys na recordiadau sain yn cael eu dosbarthu’n anghyfreithlon.

Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y gallai ffotograffiaeth a recordio sain dynnu sylw partïon neu eu taflu oddi ar eu hechel, neu roi straen diangen arnynt. Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys cymdeithasau cyfreithiol, grwpiau cymdeithas sifil, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, aelodau’r cyhoedd a defnyddwyr y llysoedd, bryderon y gallai darlledu gael ei weld fel math o adloniant, gan arwain at ledaenu gwybodaeth yn gyflym ac yn afreolus. Teimlent fod angen ystyried risgiau o’r fath mewn rheoliadau neu ddeddfwriaeth bosibl.

# 6. Gweithdrefn Un Ynad (SJP)

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 25:** Yn eich barn chi, beth allai'r llywodraeth ei wneud i wella tryloywder y SJP? | **32 (24%)** |
| **Cwestiwn 26:** Sut gellid gwella'r broses o gyhoeddi achosion SJP ar hyn o bryd (ar CaTH)? | **11 (8%)** |

## 6.1 Gwella tryloywder y Weithdrefn Un Ynad

Dywedodd ymatebwyr, er bod y Weithdrefn hon yn ceisio delio â throseddau mewn ffordd gymesur, fod gan euogfarnau arwyddocâd mawr i'r unigolion ac y gallent arwain at ganlyniadau ariannol, colli eu trwydded yrru a chanlyniadau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai achosion SJP o wir fudd i'r cyhoedd, fel y rheini sy'n gorfodi rheolau Covid-19.

Cododd ymatebwyr bryderon am enghreifftiau lle mae diffynyddion nad ydynt yn ymateb i'r hysbysiad SJP yn cael eu dedfrydu heb eu mewnbwn, er bod rhesymau dilys dros beidio ag ymateb, fel yr hysbysiad yn cael ei anfon i'r cyfeiriad anghywir. Awgrymodd un gymdeithas gyfreithiol y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth i fynnu bod llysoedd yn cael prawf bod y diffynnydd wedi cael yr hysbysiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau ar SJP yn teimlo bod mwy y gellid ei wneud i wella ei thryloywder. Gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer gwelliannau o dan dri maes eang, a amlinellir yn adrannau 6.2 i 6.4 isod.

## 6.2 Data ar y Weithdrefn Un Ynad

Galwodd ymatebwyr am fwy o ddata ac ystadegau ar achosion SJP a chanlyniadau i'w cyhoeddi. Dim ond drwy Gwestiynau Seneddol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr oedd yr wybodaeth hon ar gael. Byddai sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd mewn fformat cyson, rheolaidd a hawdd ei ddefnyddio yn galluogi mwy o gymariaethau rhwng y llysoedd a dadansoddiad rhagweithiol i werthuso effaith SJP.

Roedd awgrymiadau ymatebwyr ar gyfer y mathau o wybodaeth am achosion SJP y gellid eu cyhoeddi yn cynnwys:

- Nifer yr achosion
- Mathau o droseddau
- Lleoliad y troseddau
- Nifer a phroffil y diffynyddion
- Dadansoddiad data o fanylion personol yn ôl categori ee oed, rhyw, hil/ethnigrwydd, daearyddiaeth, ac ati
- Faint o bobl a gafodd eu herlyn a atebodd yr hysbysiad
- A gafodd y rhai na wnaethant ymateb eu heuogfarnu
- Nifer a mathau o bleon o gymharu â chosbau / canlyniadau
- Nifer a chanlyniad yr apeliadau

Roeddent hefyd yn argymell y dylai’r Weinyddiaeth Gyfiawnder gasglu a dadansoddi data ar achosion SJP mewn perthynas â thegwch i unigolion â nodweddion gwarchodedig ac adolygu data ansoddol gan y rheini sy’n destun achosion SJP.

Lle’r oedd rhai ymatebwyr, sef cymdeithasau cyfreithiol, o’r farn y byddai rhestrau manwl dyddiol yn ddefnyddiol, teimlai ymatebwyr eraill fel academyddion y gallai cynnwys gwybodaeth lawn am fân drosedd fod yn niweidiol i’r diffynnydd ac na ellid ei gyfiawnhau.

## 6.3 Mwy o arweiniad a chefnogaeth i ddiffynyddion

Awgrymodd ymatebwyr nifer o ffyrdd y gellid gwella’r arweiniad a’r gefnogaeth a roddir i ddiffynyddion. Er enghraifft, roeddent yn teimlo y dylid eu hegluro mewn iaith glir, y gallent gynnwys cyfeirio at gyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol i sicrhau cydsyniad gwybodus a mynediad at gyfiawnder, ac y dylent hwyluso cyfathrebu ac adborth clir. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw pob diffynnydd, heb welliannau i’r arweiniad a’r gefnogaeth, yn deall pwysigrwydd ymateb i’r hysbysiad SJP nac effaith ple euog. Teimlent fod hyn yn arbennig o bwysig o ran sicrhau bod y broses yn hygyrch ac yn deg i ddiffynyddion oedrannus ac agored i niwed, er enghraifft, unigolion sy’n ddigartref.

## 6.4 Mwy o sianeli craffu

Galwodd ymatebwyr am fwy o sianeli i alluogi craffu gan y cyhoedd a’r cyfryngau ac i ymgysylltu ymhellach â’r SJP. Roedd eu hawgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys:

- Hwyluso’r broses o adrodd ar achosion neu ganlyniadau SJP;
- Gwahodd barn y cyhoedd ar bolisïau/arferion SJP;
- Cynnal ymchwil werthusol ar effeithiolrwydd SJP;

- Sesiynau recordio sain neu fideo a galluogi'r wasg i arsylwi o bell; ac
- Adolygiad o sampl a reolir o achosion SJP gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol (cyfreithwyr, y farnwriaeth, cynghorwyr cyfreithiol) i sicrhau cysondeb canlyniadau.

Tynnodd ymatebwyr, sef cynrychiolwyr y cyfryngau, sylw hefyd at y ffaith y dylai newyddiadurwyr fod yn ymwybodol eu bod yn gallu cael gafael ar ddatganiad achos yr erlyniad, ple, a mesurau lliniaru ac y dylai staff y llys sy'n delio â cheisiadau am fynediad fod yn ymwybodol o'r hyn y gellir gofyn amdano a sicrhau mynediad cyflym at ddogfennau. Nodwyd bod y broses hon yn galluogi newyddiadurwyr i ddeall sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, i graffu ac i ganfod unrhyw anghysondebau. Roeddent hefyd yn awgrymu y dylai newyddiadurwyr allu cael gafael ar y dogfennau achos yn ddigidol a herio unrhyw ddyfarniad lle mae'r wybodaeth yn cael ei dal yn ôl. Yn fwy cyffredinol, teimlai cynrychiolwyr y cyfryngau y dylent allu herio'r sefyllfa pan gaiff achos ei wrando'n breifat.

## 6.5 Awgrymiadau eraill ar gyfer gwella

Roedd yr awgrymiadau eraill ar gyfer gwella a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Cyhoeddi rhestr lawn o'r troseddau y gellir delio â nhw drwy SJP ac a ydynt yn gofnodadwy ai peidio (hy a fyddant yn ymddangos ar gofnod troseddol);
- Creu cofrestr ar-lein neu gronfa ddata ganolog o achosion SJP;
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ee gwybodaeth glir am hysbysiadau cyhoeddus mewn mannau lle gallai fod angen i bobl fod yn ymwybodol o SJP (fel ar beiriannau gwerthu tocynnau mewn gorsafoedd trên/y Tiwb, ar brif dudalen gwefan TV Licensing);
- Creu gwefan ar SJP ar gyfer y cyhoedd a'r rheini sy'n cael hysbysiadau er mwyn rhoi gwybodaeth a darparu cymorth ar-lein;
- Ymestyn cylch gwaith Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gynnwys yr holl erlynwyr 'a noddir gan y wladwriaeth', gan gynnwys y rhai dan SJP;
- Cyhoeddi ffurflenni ar-lein a ffurflenni post gwag i wella dealltwriaeth o'r broses;
- Adolygu a all Llwyfan Cyffredin GLITEF ddarparu ar gyfer ceisiadau am ganlyniadau; a
- Cyflwyno un porth ar-lein a swyddfa gyhuddo ganolog yr Heddlu/CPS ar gyfer penderfyniadau cyflymach ac effeithlon yr erlyniad er mwyn gallu lanlwytho datganiadau tystion a thystiolaeth.

## 6.6 Rhestrau'r Weithdrefn Un Ynad

Mynegodd ymatebwyr yr angen i gyhoeddi rhestrau SJP mewn fformat hawdd ei ddefnyddio a'i ddeall. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael mwy o ymwybyddiaeth o ble mae achosion SJP yn cael eu cyhoeddi, ac y dylid eu diweddaru'n ddyddiol gyda mynediad hawdd at ffeiliau ategol ac y dylent fod ar gael ar un dudalen we heb fod angen

cofrestru. Roeddent hefyd yn awgrymu y dylai rhestrau SJP fod ar gael ymhellach ymlaen llaw ac y dylid archifo’r rhestrau, a’r canlyniadau, yn gyhoeddus.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod rhestrau SJP yn aml yn cael eu hanfon yn anghyflawn neu nad oedd yn glir a oedd gwybodaeth ar goll. Nodwyd, pan na roddwyd cyhoeddusrwydd priodol i restrau SJP, fod hyn wedi arwain at ddryswch ynghylch a fyddai’r gwrandawiad yn parhau ai peidio.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cyhoeddi canlyniadau SJP mewn llysoedd ac ar-lein, gan gynnwys y sancsiynau ar gyfer y rheini a gafwyd yn euog a’r costau a ddyfernir i’r erlyniad. Fodd bynnag, roedd cymdeithas gyfreithiol o’r farn, heb weld y broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd y canlyniad, na fyddai cyhoeddi canlyniadau ynddynt eu hunain yn cynyddu tryloywder y llys.

Cymysg oedd barn yr ymatebwyr ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn rhestr SJP. Er bod rhai o blaid cyhoeddi enw llawn y diffynnydd, ei gyfeiriad, y math o drosedd a’r canlyniad er mwyn ei gwneud yn haws i’r cyhoedd holi am achosion, teimlai eraill fod effeithiau tymor hir y ffaith bod yr wybodaeth hon ar gael i’r cyhoedd yn anghymesur â’r drosedd. Roedd academydd yn teimlo y dylid cael system i ganiatáu rhagor o wybodaeth ar gais heb o reidrwydd gyhoeddi manylion llawn yr unigolyn ar-lein.

## 6.7 Pledio a dyrannu ar-lein

Roedd nifer o gynrychiolwyr y cyfryngau yn poeni am y Pledio a Dyrannu Ar-lein sydd ar y gweill (ar y pryd) a sut roedd hyn yn cyd-fynd â’r egwyddor cyfiawnder agored. Teimlent ei bod yn ymddangos bod tuedd tuag at beidio ag adrodd yn y cyfryngau ar achosion ynadon o gwbl, a oedd yn destun pryder iddynt o ran ymddiriedaeth yn y rheol gyfreithiol.

# 7. Cyhoeddi Dyfarniadau a Sylwadau Dedfrydu

| **Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| **Cwestiwn 27:** Yn eich profiad chi, ydy'r dyfarniadau llys neu benderfyniadau'r tribiwnlys sydd eu hangen arnoch chi ar gael i'r cyhoedd ar-lein? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb. | **51 (39%)** |
| **Cwestiwn 28:** Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyfuno dyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar hyn o bryd ar safleoedd eraill y llywodraeth yn FCL, er mwyn i'r holl ddyfarniadau a phenderfyniadau fod ar gael ar un gwasanaeth, ar gael mewn fformat y gellir ei ddarllen gan beiriant ac yn amodol ar system drwyddedu FCL. Byddai safleoedd eraill y llywodraeth wedyn yn cael eu cau. Oes gennych chi unrhyw farn am hyn? | **66 (50%)** |
| **Cwestiwn 29:** Mae'r llywodraeth yn gweithio tuag at gyhoeddi cofnod cyflawn o ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys. Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau hoffech chi eu gweld yn cael eu cyhoeddi ar-lein nad ydynt ar gael ar hyn o bryd? Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau na ddylid eu cyhoeddi ar-lein a'u darparu ar gais yn unig? Esboniwch pam. | **52 (40%)** |
| **Cwestiwn 30:** Ar wahân i ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys, a oes cofnodion llys eraill y credwch y dylid eu cyhoeddi ar-lein a/neu ddylai fod ar gael ar gais? Os felly, esboniwch pam a sut. | **58 (44%)** |
| **Cwestiwn 31:** Yn eich barn chi, sut gellir gwella'r broses o gyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr technolegau cynorthwyol a defnyddwyr sydd â gallu digidol cyfyngedig? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb. | **38 (29%)** |
| **Cwestiwn 32:** Yn eich profiad chi, a yw cyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau tribiwnlys wedi cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y llys neu aelodau ehangach o'r cyhoedd? | **42 (32%)** |
| **Cwestiwn 33:** Pa wasanaethau neu nodweddion newydd sy'n seiliedig ar fynediad at ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys ydych chi'n bwriadu eu datblygu neu ydych chi'n wrthi yn eu datblygu? Pwy yw'r | **12 (9%)** |

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| gynulleidfa darged? (Er enghraifft, cyfreithwyr, busnesau, defnyddwyr llys, defnyddwyr eraill). | |
| **Cwestiwn 34:** Ydych chi'n defnyddio dyfarniadau o diriogaethau eraill i ddatblygu eich gwasanaethau/cynnyrch? Rhowch fanylion. | **12 (9%)** |
| **Cwestiwn 35:** Ar ôl blwyddyn o weithredu, rydym yn adolygu'r Drwydded Drafodol. Yn eich profiad chi, sut mae'r Llys Agored a/neu'r Drwydded Drafodol wedi cefnogi neu gyfyngu ar eich gallu i ailddefnyddio dyfarniadau llys neu benderfyniadau tribiwnlys. Sut mae hyn yn cymharu â'ch profiad cyn mis Ebrill 2022? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb. | **9 (7%)** |
| **Cwestiwn 36:** Wrth ddisgrifio'r defnydd o'r Drwydded Drafodol, rydym yn defnyddio'r term 'dadansoddi cyfrifiadurol'. Yr ydym wedi clywed gan randdeiliaid, fodd bynnag, fod y term yn rhy amwys. Pa derm(au) fyddai orau gennych chi? Esboniwch eich ateb. | **7 (5%)** |
| **Cwestiwn 37:** Ydych chi wedi chwilio am benderfyniadau tribiwnlys ar-lein ac os ydych chi wedi gwneud hynny, beth oedd eich profiad, a beth oedd eich rheswm dros chwilio? | **11 (8%)** |
| **Cwestiwn 38:** Ydych chi'n meddwl y dylai penderfyniadau tribiwnlys ymddangos mewn peiriannau chwilio ar-lein fel Google? | **45 (34%)** |
| **Cwestiwn 39:** Pa wybodaeth sydd ei hangen i'w chynnwys mewn cofrestr o benderfyniadau a gyhoeddir? Pa fesurau diogelu fyddai eu hangen? | **30 (23%)** |
| **Cwestiwn 40:** Ydych chi'n meddwl y dylid cyhoeddi sylwadau dedfrydu barnwrol ar-lein / ar gael ar gais? Os felly, ym mha fformat ydych chi'n meddwl y dylent fod ar gael? Esboniwch eich ateb. | **40 (30%)** |

## 7.1 Catalog dyfarniadau ar-lein

Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch argaeledd cyfyngedig dyfarniadau cyhoeddus am ddim ar-lein a dywedasant eu bod yn aml yn dibynnu ar wefannau tanysgrifio (y telir amdanynt). Nodwyd bod hyn yn cyfyngu ar hygyrchedd, ymchwil, gwaith academaidd, adrodd, deall a dadansoddi dyfarniadau a phenderfyniadau. O'r dyfarniadau a'r penderfyniadau hynny a nodwyd gan ymatebwyr nad oeddent ar gael am ddim, roeddent yn cynnwys dyfarniadau llys teulu, dyfarniadau o lysoedd haen is, penderfyniadau ar y pryd (dyfarniadau llafar nad ydynt yn ysgrifenedig), a dyfarniadau sy'n ymwneud â

therfysgaeth, cam-drin domestig ac esgeulustod. Ceir dadansoddiad manylach o’r mathau o ddyfarniadau a phenderfyniadau, yn ogystal â chofnodion llys eraill, y teimlai ymatebwyr y byddent yn ddefnyddiol yn adran 7.4.

Roedd barn yr ymatebwyr yn rhanedig o ran a ddylai’r llywodraeth gynnig cofnod ar-lein cyflawn i’r cyhoedd neu a ddylid darparu dim ond y dyfarniadau neu’r penderfyniadau hynny sydd ag arwyddocâd cyfreithiol. Roedd rhai ymatebwyr, sef newyddiadurwyr, academyddion ac aelodau o’r cyhoedd, yn ffafrio’r opsiwn o gael cofnod cyflawn ar y sail y bydd yn gwella tryloywder ac yn hwyluso gwell dealltwriaeth o’r system gyfiawnder. Roedd eraill, yn cynnwys cymdeithasau barnwrol ac ymarferwyr cyfreithiol, o’r farn mai dim ond dyfarniadau sy’n gyfreithiol arwyddocaol y dylai’r llywodraeth eu cynnig fel na fyddid yn buddsoddi adnoddau i gyhoeddi dyfarniadau nad ydynt yn gosod cynsail cyfreithiol.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylid cael eithriad ar gyfer achosion sy’n ymwneud â materion preifat a chyfrinachol fel y rheini sy’n ymwneud â dioddefwyr camdriniaeth a phenderfyniadau tribiwnlysoedd haen gyntaf, a allai fod ar gael drwy wneud cais i’r barnwr. Roeddent hefyd yn awgrymu y dylai’r llywodraeth guddio gwybodaeth gyfrinachol, yn ogystal â chynnig i bartïon y mae cyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau yn effeithio arnynt yr opsiwn i gael eu gwybodaeth bersonol wedi’i chuddio.

Fodd bynnag, roedd consensws ymysg yr ymatebwyr ynghylch manteision cynyddu cwmpas y gwasanaeth Find Case Law (FCL) – sef cael cronfa ddata hygyrch a chwiliadwy o achosion – gyda’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn mynegi y dylai’r llwyfan gynnwys mwy o lysoedd a thribiwnlysoedd ar draws yr awdurdodaethau teulu, troseddol a sifil.

Wrth ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr y llysoedd neu aelodau ehangach o’r cyhoedd, mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch cyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau ar-lein, yn enwedig pan oeddent yn cynnwys gwybodaeth sensitif am y partïon dan sylw, a allai, yn eu barn nhw, gael effeithiau negyddol ar eu henw da neu eu hiechyd meddwl. Yn debyg i’r pryderon a fynegwyd ynghylch gwybodaeth bersonol mewn rhestrau (a drafodir o dan adran 2.2), nododd ymatebwyr risg i breifatrwydd unigolion a allai arwain at wahaniaethu posibl a beio dioddefwyr yn y cyfryngau. Nodwyd ganddynt y gall sylw o’r fath yn y cyfryngau atal tystion rhag rhoi tystiolaeth yn y llys ac arwain at bartïon sy’n setlo eu hachosion er mwyn osgoi’r risg y bydd eu gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi.

Mewn cyferbyniad, dywedodd ymatebwyr eraill, yn cynnwys cymdeithasau cyfreithiol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, sector technoleg y gyfraith ac aelodau o’r cyhoedd, eu bod yn teimlo bod cyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu yn cael effaith gadarnhaol, drwy wella tryloywder a meithrin ymddiriedaeth yn y system gyfiawnder.

Atebodd nifer o ymatebwyr gan ddweud nad oeddent yn ymwybodol o effeithiau negyddol ar ddefnyddwyr y llysoedd nac aelodau o’r cyhoedd yn sgil cyhoeddi dyfarniadau a

phenderfyniadau. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan rai ymatebwyr mewn perthynas â phenderfyniadau tribiwnlys, sy’n cael sylw yn adran 7.5 isod.

## 7.2 Canoli cyhoeddi dyfarniadau’n swyddogol

Gan nodi’r anawsterau wrth chwilio drwy byrth gwahanol a cheisio cael gafael ar ddyfarniadau hanesyddol, roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod manteision canoli cyhoeddi dyfarniadau’n swyddogol ar un safle i hwyluso mynediad i’r cyhoedd. Roedd yr ymatebwyr o’r farn bod y dull canoli hwn yn ateb ymarferol i’r darnio presennol ac yn gam blaengar o ran gwella hygyrchedd dogfennau cyfreithiol. Roeddent yn arbennig o blaid i FCL gynnig dyfarniadau mewn fformat y gall peiriant ei ddarllen a diogelu’r ailddefnyddio drwy drefn drwyddedu. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn galw am ddull cyson o sicrhau nad yw rhwystrau ariannol yn rhwystro mynediad at gyfiawnder. O’r herwydd, awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai unrhyw gronfa ddata swyddogol (fel FCL) fod ar gael yn rhad ac am ddim.

Roedd ymatebwyr o'r farn y gellid gwella hygyrchedd yn y gwasanaeth ar-lein drwy gael peiriant chwilio darllenadwy, sicrhau iaith syml mewn dyfarniadau, hyfforddi staff llyfrgell lleol i ddeall jargon cyfreithiol ac ehangu dyfarniadau mewn fformat sain.

## 7.3 Sicrhau bod rhagor o ddyfarniadau a phenderfyniadau, a chofnodion llys eraill, ar gael a’u cyhoeddi

Roedd barn yr ymatebwyr yn amrywio o ran y dyfarniadau neu’r penderfyniadau nad ydynt ar gael ar-lein ar hyn o bryd yr hoffent eu gweld yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, yn cynnwys aelodau o’r cyhoedd, cynrychiolwyr y cyfryngau a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, bwysigrwydd tryloywder gan gymell cyhoeddi cynifer o ddyfarniadau a phenderfyniadau â phosibl yn swyddogol (os nad pob un). Roedd rhai ymatebwyr yn galw’n benodol am gyhoeddi nifer fwy o ddyfarniadau llys teulu er mwyn addysgu’r cyhoedd, llunwyr polisi ac ymchwilwyr ynghylch sut mae’r system cyfiawnder teuluol yn gweithio. Roedd galw hefyd i gyhoeddi penderfyniadau cwest, mwy o ddyfarniadau mewn achosion cyfraith droseddol a gweinyddol, a mwy o ddyfarniadau a phenderfyniadau o lysoedd is a thribiwnlysoedd arbenigol.

Roedd ymatebwyr eraill, yn cynnwys cymdeithasau barnwrol a rhai academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, o’r farn mai dim ond dyfarniadau a phenderfyniadau sy’n gyfreithiol arwyddocaol y dylid eu cyhoeddi. Roeddent yn nodi na ddylid cyhoeddi penderfyniadau gan dribiwnlysoedd haen gyntaf er enghraifft gan eu bod yn ymdrin yn helaeth â ffeithiau, nad ydynt yn gosod cynsail gyfreithiol a’u bod yn aml yn cynnwys gwybodaeth bersonol a sensitif iawn. Roedd rhywfaint o bryder y gallai cyhoeddi penderfyniadau tribiwnlysoedd haen gyntaf fel mater o drefn greu’r argraff anghywir eu

bod yn dal pwysau cyfreithiol yn y ffordd y mae penderfyniadau tribiwnlysoedd uwch yn gwneud. Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth bod cydbwysedd rhwng cyfiawnder agored a hawliau preifatrwydd. Roedd rhai ymatebwyr yn argymell y dylai partïon yr effeithir arnynt gan gyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau gael yr opsiwn i'w gwybodaeth gael ei golygu.

Ar wahân i ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys, mynegodd llawer o ymatebwyr ddiddordeb mewn cael mynediad at rannau eraill o gofnodion y llysoedd. Roedd y mathau o ddogfennau a awgrymwyd ganddynt yn cynnwys datganiadau agoriadol, dadleuon fframwaith, datganiadau tystion a gorchmynion llys i helpu'r cyhoedd i ddilyn datblygiad gwrandawiad a deall cyd-destun llawn achos. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod manteision, fel gwella dealltwriaeth y cyhoedd, gwella adroddiadau ac ymchwil gyfreithiol, o sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael ar-lein i unrhyw un gael gafael arnynt.

Nododd rhai ymatebwyr, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, cynrychiolwyr y cyfryngau a grwpiau cymdeithas sifil, y byddai'n ddefnyddiol cael trawsgrifiadau o wrandawiadau. Roedd hyn yn cynnwys trawsgrifiadau o achosion teulu a throseddol. Awgrymwyd y gellid cadw trawsgrifiadau a'u darparu at ddibenion ymchwil o dan amodau priodol, gyda'r Archifau Cenedlaethol o bosibl yn cynnal recordiadau fideo neu sain archif.

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr, yn cynnwys cymdeithasau barnwrol a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, ynghylch darparu cofnodion llys ehangach i'r cyhoedd. Nododd un ymatebydd ei bod yn bosibl na fyddai parti sy'n dwyn ei hawliad yn dymuno i holl ddogfennau'r llys neu'r tribiwnlys ddod yn gyhoeddus, gan dynnu sylw at achos yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, sef F v J (2023) EAT 92. Teimlai ymatebydd arall na fyddai sicrhau bod dogfennau fel gorchmynion llys (hyd yn oed pan fo hynny'n briodol yn ddienw) ar gael yn rheolaidd o fudd mawr i ddealltwriaeth y cyhoedd o'r achos.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn galw am fwy o sylwadau dedfrydu, sy'n cael sylw o dan adran 7.5 isod.

## 7.4 Ailddefnyddio dyfarniadau'n gyfrifiadurol ar Find Case Law a thrwyddedu

Pan ofynnwyd pa wasanaethau neu nodweddion yn seiliedig ar fynediad at ddyfarniadau a phenderfyniadau y mae ymatebwyr yn bwriadu eu datblygu neu wrthi'n eu datblygu, cadarnhaodd grwpiau cymdeithas sifil a chynrychiolwyr sector technoleg y gyfraith eu bod yn datblygu gwasanaethau i wella hygyrchedd dyfarniadau llys drwy dynnu gwybodaeth benodol o ddyfarniadau. Er enghraifft, nododd un ymatebydd ei fod yn bwriadu datblygu gwasanaeth a fydd yn helpu unigolion sydd â rhwystrau ariannol i gynrychioli eu hunain.

Wrth ateb a yw ymatebwyr yn defnyddio dyfarniadau o diriogaethau eraill i ddatblygu eu gwasanaethau neu eu cynnyrch, dywedodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eu bod yn defnyddio dyfarniadau o wledydd eraill sydd â systemau cyfreithiol tebyg i’r DU fel Canada, Awstralia a Hong Kong yn eu hymarfer.

Mewn ymateb i gwestiynau am y Drwydded Drafodol, nododd rhai ymatebwyr, yn cynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a chwmnïau cyfreithiol, nad yw FCL mor effeithlon â BAILII ac y gall gweithrediad trefn drwyddedu FCL fod yn gyfyngol ac y gallai atal datblygu cynhyrchion arloesol. Cododd un academydd y mater fod eu cais am drwydded ar gyfer dadansoddi cyfrifiadurol gan ddefnyddio data FCL wedi cymryd cyfnod sylweddol o amser i’w brosesu. Roedd rhai ymatebwyr yn galw am i ddata fod ar gael yn awtomatig i bob sefydliad academaidd heb gyfyngiadau.

Cawsom nifer fach o ymatebion i’r cwestiwn am y derminoleg “dadansoddiad cyfrifiadurol” a ddefnyddir yn Nhrwydded Drafodol FCL. O'r rhai a ymatebodd, academyddion yn bennaf, roeddent o'r farn fod y term yn gam i'r cyfeiriad cywir ond bod angen rheoleiddio pellach. Er enghraifft, roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd yn glir pam y dylai cyfyngiadau fod ar waith wrth ddadansoddi pan fo’r data ar gael i’r cyhoedd. Awgrymodd dau ymatebydd y gallai’r term ‘deallusrwydd artiffisial’ neu ‘AI’ fod yn fwy priodol.

## 7.5 Penderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar GOV.UK

Atebodd ymatebwyr, sef gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, academyddion, cynrychiolwyr y cyfryngau a grwpiau cymdeithas sifil, eu bod yn chwilio am benderfyniadau tribiwnlysoedd ar-lein, gan ddefnyddio porth BAILII, FCL a chofrestrfa’r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar-lein.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am eu profiad o chwilio am benderfyniadau ar-lein ond roeddent yn tynnu sylw at rai materion a brofwyd ganddynt. Roedd hyn yn cynnwys oedi wrth gyhoeddi penderfyniadau, anawsterau gyda swyddogaeth chwilio FCL, a diffyg argaeledd penderfyniadau hŷn ac achosion tribiwnlysoedd iechyd meddwl haen gyntaf. Mae ymatebwyr, sef gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai canoli cofnodion ar un llwyfan yn hwyluso gwell mynediad.

O ran y rhesymau dros edrych ar benderfyniadau tribiwnlys ar-lein, nododd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eu bod wedi gwneud hyn er mwyn llunio dadleuon cyfreithiol, nodi cynsail gyfreithiol, gwirio rhan y parti arall mewn achosion blaenorol a deall canlyniadau posibl. Nododd ymatebwyr eraill eu bod yn chwilio am benderfyniadau tribiwnlys at ddibenion ymchwil ac ar gyfer adroddiadau yn y wasg.

Wrth ystyried a ddylai penderfyniadau tribiwnlys ymddangos mewn peiriannau chwilio ar-lein, mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr angen i ddod o hyd iddynt drwy beiriannau chwilio ar-lein i gynyddu hygyrchedd i’r cyhoedd, ac nid i weithwyr proffesiynol yn unig.

Mewn cyferbyniad, mynegodd rhai ymatebwyr, sef gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a grwpiau cymdeithas sifil, bryderon ynghylch y gwelededd y mae peiriannau chwilio ar-lein yn ei roi i benderfyniadau tribiwnlys. Roeddent yn tynnu sylw at y risg fod gwybodaeth anghywir a gyhoeddir yn anodd ei thynnu'n ôl, y risg o darfu ar breifatrwydd a'r posibilrwydd o gamddefnyddio gwybodaeth. Roeddent hefyd yn mynegi pryderon y gallai gwneud penderfyniadau'n fwy gweladwy drwy beiriannau chwilio ar-lein atal darpar hawlwyr neu dystion rhag cymryd rhan mewn achosion. Codwyd penderfyniadau tribiwnlysoedd cyflogaeth yn benodol gan ychydig o ymatebwyr fel enghraifft lle'r oedd canlyniadau negyddol anfwriadol o fod ar gael drwy beiriannau chwilio ar-lein. Nododd ymatebwyr eu bod yn ymwybodol fod cyflogwyr yn chwilio am enw darpar ymgeisydd i ganfod unrhyw hawliadau cyflogaeth blaenorol a bod rhagolygon cyflogaeth hawlwyr blaenorol yn cael eu peryglu i'r dyfodol.

Yn gyffredinol, awgrymodd ymatebwyr y dylid monitro a diogelu data personol yn fwy effeithiol. Roedd consensws cyffredinol bod angen cael y cydbwysedd cywir wrth gynnal yr egwyddor cyfiawnder agored.

Cafwyd ymatebion cymysg gan ymatebwyr i'r cwestiwn ynghylch pa wybodaeth sydd ei hangen i'w chynnwys mewn cofrestr o benderfyniadau a gyhoeddir a pha fesurau diogelu fyddai'n angenrheidiol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylid golygu gwybodaeth sensitif (fel enw, cyfeiriad a statws rhiant) er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion. Mewn cyferbyniad, dywedodd ymatebwyr eraill y dylai cofrestr gynnwys enw'r partïon, gwybodaeth feta arall am yr achos a chyd-destun llawn a manylion yr anghydfod.

## 7.6 Cyhoeddi sylwadau dedfrydu

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai sylwadau dedfrydu fod ar gael i unrhyw un, yn cynnwys rhai nad ydynt yn barti, yn rhad ac am ddim. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn cynyddu tryloywder yn y system gyfiawnder, yn helpu profiad dioddefwyr, yn helpu'r cyhoedd i ddeall ac yn cynnal cysondeb wrth ddedfrydu. Teimlai ymatebwyr y dylai sylwadau dedfrydu fod ar gael ac y dylid gallu chwilio amdanynt ar-lein (er enghraifft drwy FCL). Awgrymodd rhai ymatebwyr, yn cynnwys cynrychiolwyr y cyfryngau, hefyd y dylai sylwadau dedfrydu fod ar gael yn ysgrifenedig ac ar dâp sain, ond nodwyd bod angen golygu priodol (er enghraifft, i amddiffyn plant, oedolion agored i niwed a dioddefwyr camdriniaeth).

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr, yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, yn cydnabod bod angen cydbwyso egwyddor cyfiawnder agored ag ystyriaethau eraill, fel adsefydlu troseddwyr. Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn cydnabod yr heriau ymarferol o gyhoeddi sylwadau dedfrydu, yn cynnwys y goblygiadau o ran adnoddau, oherwydd y nifer fawr o sylwadau a wneir.

# 8. Mynediad at ddogfennau a gwybodaeth y llys

| Cwestiynau a Holwyd yn y Cais am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 41:** Fel rhywun nad yw'n barti i'r achos, at ba ddiben y byddech chi'n ceisio cael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys? | **50 (38%)** |
| **Cwestiwn 42:** Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pryd y dylech wneud cais i'r llys neu'r tribiwnlys am fynediad at ddogfennau a phryd y dylech wneud cais i sefydliadau eraill? | **25 (19%)** |
| **Cwestiwn 43:** Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod ble i edrych neu â phwy i gysylltu i ofyn am gael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys? | **32 (24%)** |
| **Cwestiwn 44:** Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pa fathau o ddogfennau llys neu dribiwnlys sy'n cael eu cadw fel arfer? | **31 (24%)** |
| **Cwestiwn 45:** Beth yw'r prif broblemau rydych chi (heb fod yn barti) wedi dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys? | **48 (37%)** |
| **Cwestiwn 46:** Sut gallwn ni egluro'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti i gael gafael ar ddeunydd a ddarperir i'r llys neu'r tribiwnlys? | **42 (32%)** |
| **Cwestiwn 47:** Ar y lleiaf, pa ddeunydd a ddarperir i'r llys gan bartïon mewn achos ddylai fod ar gael i'r rhai nad ydynt yn bartïon? | **51 (39%)** |
| **Cwestiwn 48:** Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau'r llys a chryfhau'r prosesau ar gyfer cael gafael arnynt ar draws yr awdurdodaethau? | **44 (33%)** |
| **Cwestiwn 49:** A ddylid defnyddio rheolau gwahanol ar gyfer ceisiadau drwy gyfryngau newyddion achrededig, neu at ddibenion ymchwil ac ystadegol? | **43 (32%)** |
| **Cwestiwn 50:** Weithiau gall ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti fod ar gyfer nifer o ddogfennau ar draws nifer o lysoedd. Sut dylem ni hwyluso'r mathau hyn o geisiadau a gwella'r broses o ddosbarthu swmp o ddogfennau llys sydd ar gael i'r cyhoedd? | **19 (14%)** |

## 8.1 Mynediad at ddogfennau'r llys i rai sydd heb fod yn barti

Nododd ymatebwyr fod amrywiaeth o resymau pam y gallai'r rhai sydd heb fod yn barti geisio mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys. Wrth ateb y cwestiwn, roeddent yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddu diddordeb y cyhoedd a'u dealltwriaeth o'r system gyfiawnder. Dywedodd ymatebwyr hefyd y gall mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys helpu i fonitro gwaith y farnwriaeth a nodi meysydd i'w gwella yn y system gyfiawnder.

Roedd y gwahanol ddibenion a ddarparwyd gan ymatebwyr ynghylch pam mae'r rhai sydd heb fod yn barti yn ceisio mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys yn cynnwys:

- Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n defnyddio dadleuon fframwaith a dyfarniadau fel sail i'w gwaith cyfreithiol ar achosion eraill;
- Cwmnïau cyfreithiol sy'n defnyddio dogfennau i ddeall yn well achos sy'n delio â maes sydd o ddiddordeb cyfreithiol iddynt;
- Academyddion sy'n defnyddio dogfennau llys ar gyfer ymchwil;
- Pobl sy'n defnyddio dadleuon fframwaith, datganiadau tystion a datganiadau arbenigol i ddilyn achos;
- Gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau sy'n defnyddio dogfennau i'w helpu i ddarparu adroddiadau a dod i ddeall materion polisi cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag achos penodol.

Atebodd ymatebwyr sector technoleg y gyfraith y gall eu cwsmeriaid geisio mynediad at ddogfennau llys am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys: deall amserlenni achos a phryd y gallai fynd i dreial, cynhyrchu gwybodaeth ystadegol, ac os ydynt yn bwriadu ffurfio perthynas fasnachol â pharti sy'n ymwneud ag achos a'u bod yn dymuno rheoli eu risg busnes.

Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o ran pa mor wybodus oeddent o safbwynt cael gafael ar ddogfennau llys neu dribiwnlys. Atebodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn arbennig eu bod yn ymwybodol o'r rheolau a'r prosesau ond roeddent yn cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol ohonynt. Nododd ymatebwyr eraill, yn cynnwys academyddion a chynrychiolwyr y cyfryngau, nad ydynt yn glir sut a phryd y dylent wneud cais i gael mynediad at ddogfennau llys. Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r broses ar gyfer gwneud cais am fynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys, yn enwedig pa adran, swyddfa neu dribiwnlys i gysylltu â nhw.

Gwnaeth ymatebwyr, sef academyddion a chynrychiolwyr y cyfryngau, feirniadu'r costau a'r prosesau ar gyfer cael gafael ar ddogfennau.

Dywedodd ymatebwyr fod diffyg eglurder ynghylch y Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Rheolau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Nododd gweithiwr cyfreithiol proffesiynol pa mor hawdd oedd gofyn am fynediad i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) drwy ffurflen ond roedd yn cydnabod nad yw hyn yn arfer eang.

Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr drwy ddweud eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o ddogfennau llys neu dribiwnlys sy'n cael eu dal fel arfer. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr yn gyson fod argaeledd dogfennau a gwybodaeth yn rhy gyfyngedig. Nododd grwpiau cymdeithas sifil yn benodol eu bod yn dibynnu ar CE-file i ddeall pa ddogfennau sydd wedi'u ffeilio yn yr achosion y maent yn eu dilyn oherwydd eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r dogfennau a ffeiliwyd sy'n cael eu cadw mewn llysoedd ac i osgoi talu costau cael (yr hyn a allai fod yn) gorchymyn llys amherthnasol.

## 8.2 Rhwystrau rhag cael gafael ar ddogfennau llys neu dribiwnlys

Wrth nodi'r prif broblemau a wynebwyd ganddynt wrth geisio cael gafael ar ddogfennau llysoedd neu dribiwnlysoedd, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw'r broses o gael dogfennau llys neu dribiwnlys wedi'i safoni, a bod gan wahanol awdurdodaethau brosesau gwahanol. Er enghraifft, nodwyd ganddynt nad yw rheolau gweithdrefn y tribiwnlys cyflogaeth, yn wahanol i achosion llys sifil, yn darparu ar gyfer mynediad i'r cyhoedd at brif ddatganiadau'r achos. Teimlai rhai mai'r diffyg unffurfiaeth hon yw'r prif rwystr y maent yn ei wynebu. Codwyd materion hefyd gan rai ymatebwyr, sef cynrychiolwyr y cyfryngau, nad oedd barnwyr yn caniatáu iddynt gael mynediad at ddogfennau llys heb reswm cyfreithiol.

Rhwystr arall a nodwyd gan rai ymatebwyr oedd y costau uchel o gael gafael ar ddogfennau llys. Nododd un ymatebydd ei bod fel arfer yn costio £11 i ofyn am ddogfen gan yr Uchel Lys ond eu bod hefyd wedi gweld costau o hyd at £150 y 'ddogfen' (sydd mewn gwirionedd yn cynnwys nifer o ddogfennau) mewn achosion eithafol. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith y gall fod yn ddrud iawn cael trawsgrifiadau o achosion troseddol yn Llys y Goron, yn enwedig ar gyfer gwrandawiadau hirach. Roedd galw am leihau costau o'r fath, os na fyddant yn cael eu dileu'n gyfan gwbl.

Roedd y problemau eraill a godwyd gan ymatebwyr o ran cael gafael ar ddogfennau llys neu dribiwnlys yn cynnwys:

- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff llysoedd o ganllawiau GLITEF ar gefnogi mynediad i lysoedd a thribiwnlysoedd i'r cyfryngau;
- Nad yw'r Llys Ynadon yn llys cofnodi er mai ef sy'n delio â'r rhan fwyaf o achosion troseddol;
- Oedi rhag cael mynediad at ddogfennau llys;

- Oedi rhag cael ymateb gan y llys neu’r tribiwnlys, neu fethiant i ymateb;
- Amharodrwydd gan gynrychiolwyr cyfreithiol i rannu dogfennau fel dadleuon fframwaith;
- Anawsterau o ran cael gafael ar ddatganiadau tystion a thystiolaeth a gyflwynwyd gan bartïon;
- Ddim bob amser yn gwybod pa ddogfennau sydd ar gael mewn achos penodol;
- Ceisiadau gan y cyfryngau am ddogfennau achos yn cael eu gwrthod gan farnwyr, a dim ond drwy gais costus i'r llys y gellir goresgyn hyn.

Wrth ateb y cwestiwn ynghylch sut gellid egluro’r rheolau a’r canllawiau ar geisiadau am ddogfennau llys neu dribiwnlys gan rai sydd fod yn barti, awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid safoni’r rheolau a’r canllawiau. Roeddent yn awgrymu y dylai hyn gynnwys yr amser y dylai ei gymryd i gael y gwahanol gategorïau o ddogfennau. Fel arall, nododd ymatebwyr fel gweithwyr cyfreithiol proffesiynol y gellid coladu’r rheolau gwahanol sydd ar waith ar draws awdurdodaethau a sicrhau eu bod ar gael mewn lleoliad canolog.

Teimlai ymatebwyr, sef aelodau o’r cyhoedd, y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn iaith syml y gellir ei deall yn hawdd ac y dylai’r broses gael ei hegluro drwy ganllaw cam wrth gam. Roedd ymatebwyr hefyd yn galw am well hyfforddiant i staff y llysoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau a’r canllawiau ac y dylid diwygio’r rheolau i sicrhau bod mwy o ddogfennau’r llys ar gael yn rhwydd.

## 8.3 Deunyddiau i’w darparu i rai sydd heb fod yn barti

O ran pa ddeunyddiau ddylai fod ar gael i’r rhai sydd heb fod yn barti, fel gofyniad lleiaf, teimlai ymatebwyr fod hyn yn dibynnu ar wahanol ffactorau, fel y math o lys neu dribiwnlys dan sylw, natur yr achos a natur y sawl heb fod yn barti sy’n gofyn am y dogfennau. Er enghraifft, roedd ymatebwyr fel gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac academyddion o’r farn y dylent gael gwell mynediad at ddogfennau llys (y tu hwnt i’r hyn sydd ar gael i’r cyhoedd yn gyffredinol) oherwydd natur eu gwaith.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, y dylai’r rheini nad ydynt yn bartïon gael mynediad digonol at ddogfennau (er enghraifft, datganiadau tystion, ceisiadau a dadleuon fframwaith) i sicrhau eu bod yn gallu deall y gwrandawiadau a’r dyfarniadau. Nododd rhai ymatebwyr y gallai dogfennau llys mewn achosion llys troseddol neu dribiwnlys cyflogaeth fod yn eithriad o ran caniatáu mynediad at gofnodion llys llawn.

## 8.4 Gwella mynediad y cyhoedd at ddogfennau llysoedd a thribiwnlysoedd

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEF barhau i ddigideiddio'r system gyfiawnder i wella mynediad at ddogfennau llysoedd a thribiwnlysoedd, ynghyd â rhai galwadau am sicrhau eu bod ar gael mewn lleoliad canolog, ac yn hawdd eu chwilio. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu mynediad at ddogfennau yn gynnar yn yr achos, yn enwedig ar gyfer aelodau'r cyfryngau. Teimlai ymatebwyr eraill ei bod yn bwysig mynd i'r afael â chostau uchel cael gafael ar ddogfennau llys.

Fel y nodwyd uchod, o dan adran 8.2, roedd ymatebwyr hefyd yn galw am safoni rheolau a gweithdrefnau ar gael gafael ar ddogfennau llysoedd a thribiwnlysoedd a'u gwneud yn haws eu deall.

## 8.5 Rheolau a chanllawiau ar fynediad at ddogfennau llys i rai nad ydynt yn barti

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai fod rheolau gwahanol ar gyfer ceisiadau gan gyfryngau newyddion achrededig, neu at ddibenion ymchwil ac ystadegol, na cheisiadau eraill. Y rheswm am hyn yw eu bod yn credu y dylai pawb gael yr un hawliau a lefel mynediad er budd cyfiawnder agored. Gallai cael rheolau gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau, yn eu barn nhw, greu dryswch a gwaith ychwanegol. Mewn cyferbyniad, atebodd rhai ymatebwyr, sef cynrychiolwyr y cyfryngau, y dylai rheolau gwahanol fod mewn grym ac y gellid cryfhau a gwella darpariaethau sy'n caniatáu mynediad at ddogfennau llys troseddol.

# 9. Mynediad at ddata ac ailddefnyddio

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 51:** At ba ddibenion y dylai data sy'n deillio o'r system gyfiawnder gael ei rannu a'i ailddefnyddio gan y cyhoedd? | **42 (32%)** |
| **Cwestiwn 52:** Sut gallwn ni gefnogi mynediad at ac ailddefnyddio data sy'n deillio o'r system gyfiawnder yn gyfrifol? | **32 (24%)** |
| **Cwestiwn 53:** Pa fathau o ailddefnyddio data ddylen ni fod yn eu hannog? Rhowch enghreifftiau. | **17 (13%)** |
| **Cwestiwn 54:** Beth yw'r rhwystr mwyaf i gael gafael ar ddata a'i ailddefnyddio? | **35 (27%)** |
| **Cwestiwn 55:** Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth am gamsyniadau cyffredin ynghylch y defnydd o ddata gan drydydd partïon? A oes enghreifftiau o sut gellir lliniaru'r rhain? | **8 (6%)** |
| **Cwestiwn 56:** Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad i ddangos sut mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â data cyfiawnder? Defnyddiwch eich diffiniad eich hun o'r term. | **11 (8%)** |
| **Cwestiwn 57:** Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyngor agnostig i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Pa ganllawiau hoffech chi eu gweld yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer y sefydliad cyfreithiol? Yn eich barn chi, a ddylai hyn gael ei ddarparu gan y llywodraeth neu reoleiddwyr y gwasanaethau cyfreithiol? | **9 (7%)** |

## 9.1 Dibenion ailddefnyddio data cyfiawnder

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd gallu cael gafael ar ddata cyfiawnder am nifer o resymau, yn cynnwys cynnal ymchwil gyfreithiol, datblygu cynnyrch technoleg posibl ym maes y Gyfraith, dadansoddi data i gefnogi'r ddealltwriaeth o'r system gyfiawnder, ac er mwyn atebolrwydd. Pwysleisiodd ymatebwyr, sef grwpiau cymdeithas sifil, bwysigrwydd data cyfiawnder i fonitro tueddiadau a rhagfarnau posibl yn y system.

Roedd ymatebwyr o sector technoleg y gyfraith o’r farn y dylai’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEF ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o’r system mewn ffordd fesuradwy cyn rhoi mynediad at ddata er mwyn datblygu cynnyrch posibl. Enghreifftiau o’r defnyddiau posibl a awgrymwyd gan ymatebwyr oedd: y potensial i gyflogwyr ddefnyddio data tribiwnlysoedd cyflogaeth i ddylunio eu polisïau adnoddau dynol a datblygu hyfforddiant i reolwyr ar hawliadau tribiwnlys cyffredin a’r posibilrwydd i asiantaethau gwirio credyd a rheoleiddwyr/awdurdodau ariannol ddefnyddio dyfarniadau llys sirol.

O ran mynediad, awgrymodd ymatebwyr y gellid datblygu gwahanol fathau o fodelau a chaniatâd mynediad, drwy byrth diogel neu brosesau hunanardystio. Nododd un academydd fod yr awydd i ganiatáu mynediad trydydd parti at ddata cyfiawnder yn amrywio yn dibynnu ar nod y defnydd. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at ymchwil i bolau piniwn i adlewyrchu gwahanol agweddau’r cyhoedd, gan dynnu sylw at y ffaith fod y cyhoedd yn teimlo’n fwy cyfforddus yn rhoi mynediad at ddata i wella’r ffordd y mae llysoedd yn cael eu rhedeg a’u bod yn llai cyfforddus yn rhoi mynediad i helpu cwmnïau masnachol i ddatblygu cynnyrch.

## 9.2 Cefnogi mynediad ac ailddefnyddio data cyfiawnder yn gyfrifol

Tynnodd y rhan fwyaf o ymatebwyr, yn cynnwys grwpiau cymdeithas sifil, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac academyddion, sylw at yr angen i wneud data cyfiawnder yn fwy hygyrch ac iddo fod ar gael am wahanol resymau ac at wahanol ddefnyddiau. Roedd eu hymatebion yn awgrymu’r posibilrwydd o roi mynediad at gatalogau data agored a’r angen am berchnogaeth data glir.

Galwodd ymatebwyr, yn gynnwys grwpiau cymdeithas sifil, academyddion, cynrychiolwyr y cyfryngau a chymdeithasau cyfreithiol, am gasglu data mewn fformat y gellir ei ddefnyddio a'i 'ddeall'. Cynigiodd rhai ymatebwyr, sef academyddion, y dylid datblygu fframweithiau cyfreithiol sy’n galluogi casglu, rheoli a rhannu data’n dryloyw mewn ffordd ddiogel. Roedd cynrychiolwyr sector technoleg y gyfraith o'r farn y gallai unrhyw gyfyngiadau cymhleth neu ddiangen gael effaith andwyol ar arloesi, ac felly mae angen y cydbwysedd cywir wrth ddatblygu fframweithiau cyfreithiol.

Roedd y rhai a ymatebodd yn cytuno’n gyffredinol fod angen mesurau diogelu priodol mewn perthynas â mynediad at ddata personol. Wrth hyrwyddo ailddefnyddio cyfrifol, awgrymodd rhai y dylid gwneud cofnodion yn ddienw tra bod eraill yn sôn am ailddefnyddio data o dan systemau neu amgylcheddau digidol a reolir. Nododd academyddion a grwpiau cymdeithas sifil fod rhaglen Data yn Gyntaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn fodel da ar gyfer rhannu data. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith na ellir rheoli defnydd cyfrifol unwaith y bydd data ar gael i’r cyhoedd.

Roedd rhai ymatebwyr am i'r Panel Mynediad at Ddata a'r Uwch Banel Llywodraethu Data reoli ceisiadau am ddata ar lefel achosion, gan groesawu goruchwyliaeth o'r fath dros fynediad at ddata. Roeddent o'r farn fod angen rhoi cyfarwyddiadau clir i ymgeiswyr ynghylch cyfyngiadau a goblygiadau camddefnyddio. Pwysleisiodd un ymatebydd fod yr egwyddor o gyfiawnder agored yn bwysig, ond y dylid ei gydbwyso ag egwyddorion eraill a chydag ymwybyddiaeth sylweddol o risgiau, gan gyfeirio at yr egwyddorion a nodir yn Neddf Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (RPSI) 2015.

## 9.3 Hyrwyddo ailddefnyddio data cyfiawnder

Awgrymodd ymatebwyr y gellid gwneud data cyfiawnder yn fwy hygyrch drwy'r ffyrdd canlynol:

- Galluogi setiau data y gellir eu lawrlwytho mewn fformat y gall peiriant ei ddarllen;
- Canoli dyfarniadau ar un porth;
- Cyhoeddi catalog cyflawn o'r data sydd ar gael;
- Cyhoeddi cyfyngiadau adrodd;
- Cyhoeddi data mewn fformat hawdd ei ddeall ar gyfer pobl nad ydynt yn arbenigwyr.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gallai'r ailddefnyddio posibl canlynol ar ddata cyfiawnder gael ei sefydlu neu ei ehangu:

- Parhau i gyhoeddi ystadegau (e.e. hyd dedfrydau, canrannau diffynyddion heb gynrychiolaeth, hyd penderfyniadau remand, canlyniadau achosion);
- Cyhoeddi data dienw yn ei grynswth;
- Cyhoeddi data ystadegol lefel uchel ar y defnydd o'r system llysoedd a thribiwnlysoedd;
- Cysylltu data ag adrannau eraill y llywodraeth (e.e. y GIG, yr Adran Addysg).

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid datblygu canllawiau clir ar ailddefnyddio data y gellir gwneud cais amdano, gan amlinellu defnyddiau a allai fod o fudd i'r cyhoedd. Roeddent yn sôn am bwysigrwydd ailddefnyddio data cyfiawnder i ddeall llwybrau defnyddwyr, gweithrediad y system, a sut mae'r system yn gwasanaethu'r bobl sy'n mynd drwyddi. Teimlai ymatebwyr, sef academyddion a grwpiau cymdeithas sifil, fod cael mwy o ddata yn bwysig er mwyn helpu i ddeall y system cyfiawnder troseddol yn well. Gall ailddefnyddio data alluogi rhaglenni a deunyddiau addysg gyfreithiol gyhoeddus.

## 9.4 Rhwystrau rhag cael mynediad at ddata cyfiawnder

Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o heriau a rhwystrau o ran cael gafael ar ddata, gan gynnwys:

- Problemau adnoddau (e.e. negeseuon e-bost neu alwadau ffôn heb eu hateb) a diffyg un pwynt cyswllt
- Prosesau a/neu lwybrau aneglur ar gyfer ceisiadau
- Diffyg casglu data
- Fformat a strwythur y data
- Hen systemau etifeddol nad ydynt yn addas ar gyfer swmp lwytho data i lawr
- Cronfeydd data anghyflawn am ddim ar-lein a chostau cael mynediad at gronfeydd data cyfreithiol masnachol, diogelu data a rheoliadau preifatrwydd
- Cyfyngiadau ar ddefnydd cyfrifiadurol
- Diffyg diffiniad a chwmpas clir a chyson o ddata cyfiawnder
- Cymhlethdod y systemau a’r prosesau cyfreithiol
- Llawlyfrau defnyddwyr cymhleth a data trwm ar jargon
- Diffyg gwybodaeth am y data sy’n bodoli neu sydd ar gael i’w ailddefnyddio
- Ofn a diffyg dealltwriaeth o sut gellid defnyddio data
- Anghysonderau o ran rhannu a chyhoeddi data ar draws adrannau’r llywodraeth.

Yn fwy cyffredinol, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y diffyg Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau a threfniadau trwyddedu sydd ar gael yn rhwydd. Lle maent yn bodoli, fel yn achos y gwasanaeth Find Case Law, nododd ymatebwyr ddiffyg eglurder ac oedi o ran ceisiadau am drwyddedau trafodol.

Roedd ymatebwyr, sef grwpiau cymdeithas sifil ac academyddion, o'r farn fod cost ariannol cael gafael ar ddata yn aml yn rhwystr rhag creu setiau data mawr, a bydd rhwystrau ariannol yn debygol o arwain at greu porthorion newydd (neu atgyfnerthu porthorion presennol), ac yn cyfyngu ar ddatblygu technolegau newydd.

## 9.5 Camsyniadau ynghylch defnydd data cyfiawnder

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys grwpiau cymdeithas sifil a chymdeithasau cyfreithiol, at ymchwil a gynhaliwyd gan Ipsos ar ran y Sefydliad Addysg Gyfreithiol, a oedd yn darparu gwybodaeth am rai o’r camsyniadau cyffredin ynghylch defnyddio data cyfiawnder, gan gynnwys pryderon ynghylch sut gallai’r data hwnnw gael ei ddefnyddio. Tynnodd un ymatebydd sylw at ganfyddiadau o’r ymchwil a oedd yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o aelodau’r cyhoedd yn ymwybodol o’r wybodaeth sydd mewn cofnodion llys, na phwy sydd â mynediad at gofnodion llys. Roeddent hefyd o’r farn fod yr ymchwil yn

dangos diffyg ymwybyddiaeth o sut mae dyfarniadau’n cael eu defnyddio fel cynsail mewn system cyfraith gyffredin.

Awgrymodd ymatebydd arall y gallai fod camsyniad posibl fod modd rhagweld penderfyniadau barnwyr drwy ddadansoddi eu penderfyniadau blaenorol. Ond, ym marn yr ymatebydd, mae dyfarniadau (yn enwedig dyfarniadau llys teulu) yn rhy ddistrwythur i ganiatáu dadansoddiad dibynadwy i ganfod patrymau ymddygiad o’r fath.

Roedd un ymateb yn tynnu sylw at y camsyniad cyhoeddus cyffredin fod y cyfryngau’n defnyddio data i ffurfio naratif ffug ac yn awgrymu y gellid lliniaru hyn drwy ychwanegu cyd-destun at ffynonellau data ac annog y cyhoedd i ymchwilio eu hunain drwy ddata agored.

## 9.6 Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn perthynas â data cyfiawnder

Er bod cytundeb cyffredinol nad yw technoleg deallusrwydd artiffisial yn ddigon soffistigedig eto i weithredu’n ddibynadwy heb oruchwyliaeth ddynol, darparodd ymatebwyr ar draws gwahanol sectorau ystod eang o enghreifftiau mewn ymateb i’r cwestiwn sut mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â data cyfiawnder. Er nad oedd bob amser yn glir a oedd pob enghraifft yn tynnu sylw at yr hyn sy’n bodoli ar hyn o bryd neu a oedd yn ddyhead ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol, roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys:

- Defnyddio Modelau Iaith Mawr (LLMs) a Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i strwythuro data cyfreithiol;
- Mynd i’r afael â gwallau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial (a elwir yn aml yn “rhithweledigaeth” AI) drwy wirio canlyniadau deallusrwydd artiffisial am gywirdeb;
- Cofnodi a chynhyrchu trawsgrifiadau o dreialon;
- Cynorthwyo gydag ymchwil gyfreithiol a chwilio’n glyfar am gyfraith achosion;
- Gwneud iaith gyfreithiol yn fwy dealladwy i bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol;
- Gwella’r swyddogaeth chwilio a sganio dogfennau;
- Cynorthwyo gyda drafftio;
- Canfod cynseiliau mewn cyfraith achosion;
- Prosesu gwybodaeth heb ei strwythuro o sawl ffynhonnell;
- Trawsgrifio llais-i-destun;
- Cyfieithiadau Awtomataidd.

Hefyd, awgrymodd ymatebwyr y gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial i wneud y canlynol:

- Gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd am gost is na'r hyn sy'n cael ei dalu fel arfer wrth gael gwasanaethau cyfreithiol;
- Gwella gwasanaethau i ddinasyddion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfreithiol;
- Datblygu sgwrsfotiaid;
- Datblygu llwyfannau datrys anghydfodau ar-lein;
- Deall sut mae dyfarniad newydd yn effeithio ar y corff presennol o gyfraith achosion.

Nododd ymatebydd academaidd fod y diffyg data cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd yn ei gwneud yn anodd mapio'n gywir sut a ble mae adnoddau deallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn gwasanaethau cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr. Tynnodd sylw hefyd at y diffyg cofrestr o ddarparwyr technolegau deallusrwydd artiffisial ac, yn wahanol i awdurdodaethau fel yr Unol Daleithiau a Chanada, nid yw llysoedd yng Nghymru a Lloegr eto'n cyhoeddi cyfarwyddiadau ymarfer a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bartïon nodi ble maent wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial wrth baratoi eu hachos. Teimlent fod hyn yn gwneud y defnydd o offer deallusrwydd artiffisial yn llai amlwg ac yn tanseilio'r gallu i ymchwilio i'w heffaith ar ganlyniadau achosion.

## 9.7 Canllawiau deallusrwydd artiffisial ar gyfer y sector cyfreithiol

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r llywodraeth a rheoleiddwyr gydweithio â chyrff proffesiynol i ddatblygu canllawiau fframwaith. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y gallai rheoleiddio fod yn anodd ar adeg pan mae'n ymddangos bod y dechnoleg yn datblygu'n gyflym.

Y tu hwnt i'r canllawiau, awgrymodd ymatebwyr, grwpiau cymdeithas sifil yn bennaf, fod yn rhaid rheoleiddio'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn ofalus ar sail statudol ac mai rheoleiddiwr deallusrwydd artiffisial arbenigol canolog fyddai'r corff gorau i wneud hyn. Ar y pwynt hwn, teimlai un academydd fod y rheoliadau a'r canllawiau presennol yn annigonol i fynd i'r afael â'r niwed posibl a sicrhau budd o'r defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial yng nghyd-destun gwasanaethau cyfreithiol a'r system gyfiawnder.

O ran canllawiau ar gyfer y lleoliad cyfreithiol, cynigiodd yr ymatebwyr y canlynol:

- Rhwymedigaethau cyfreithiol a phroffesiynol sy'n berthnasol i gyfreithwyr sy'n defnyddio neu'n darparu gwasanaethau cyfreithiol a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial;

- Manteision a risgiau defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau cyfreithiol;
- Arferion gorau ac argymhellion i gyfreithwyr sy’n defnyddio neu’n darparu gwasanaethau cyfreithiol a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial;
- Gofyniad i sefydlu cofrestr o ddarparwyr cynhyrchion a gwasanaethau deallusrwydd artiffisial sy’n cael eu marchnata i’r gwasanaethau cyfreithiol a’r system gyfiawnder;
- Ychwanegu rheol at y Rheolau Trefniadaeth Sifil, Troseddol a Theulu yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon ddatgelu pan fyddant wedi defnyddio AI wrth baratoi deunyddiau a ddarperir i’r llys.

Yn fwy cyffredinol, nododd ymatebwyr hefyd feysydd ychwanegol ar gyfer datblygu canllawiau clir, a oedd yn cynnwys:

- Preifatrwydd a diogelu data;
- Tryloywder algorithmig;
- Cywirdeb, tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd;
- Effeithiau ar rolau proffesiynol cyfreithiol;
- Safonau moesegol a mesurau diogelu;
- Defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr sylw at amrywiol risgiau a heriau posibl o ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys:

- Y risg o waethygu rhagfarnau a gwahaniaethu;
- Torri rheolau cyfrinachedd;
- Diffyg trefniadau rheoli ansawdd ac atebolrwydd;
- Pryderon ynghylch cywirdeb a dibynadwyedd;
- Diffyg safonau tryloywder y cytunwyd arnynt i helpu defnyddwyr i gymharu a dilysu perfformiad gwahanol adnoddau deallusrwydd artiffisial.

Awgrymodd ymatebydd o blith y grŵp cymdeithas sifil fod dull y DU o reoleiddio deallusrwydd artiffisial, fel y nodir yn y papur gwyn ar reoleiddio deallusrwydd artiffisial, yn gyfle a gollwyd i sicrhau bod hawliau sylfaenol a gwerthoedd democrataidd yn cael eu diogelu. Roedd yn cynnig ystod o egwyddorion i’w hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, ymgynghori â’r cyhoedd cyn i’r llywodraeth ddefnyddio offer gwneud penderfyniadau awtomataidd, a sefydlu rheoleiddiwr arbenigol i orfodi’r drefn reoleiddio sy’n sicrhau bod pobl yn gallu ceisio iawn pan fydd pethau’n mynd o chwith. Ar wahân, roedd ymatebydd academaidd o’r farn y dylai’r llywodraeth fynd i’r afael ar frys â’r ffactorau ecosystem fel mynediad at ddata, cyllid a modelau busnes sy’n arwain at ddatblygu cynnyrch deallusrwydd artiffisial i ffafrio’r rhai sy’n cymryd rhan dro ar ôl tro a chwmnïau cyfreithiol mawr.

Dywedodd ymatebwyr fod bylchau sylweddol yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, a bod angen mapio mannau nad ydynt wedi cael sylw digonol yn y gyfraith a’r rheoliadau.

Roedd un ymatebydd yn cydnabod bod y sector cyfiawnder yn creu llawer o gyfleoedd ar gyfer prosesu sy’n gallu cael effaith sylweddol ar unigolion a dylai unrhyw brosesu o’r fath ystyried Canllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Diogelu Data. Roedd yn pwysleisio, os yw goruchwyliaeth a dealltwriaeth o’r broses gyfiawnder i gael eu cyflawni, y bydd yn hanfodol defnyddio safonau tryloywder algorithmig, ac egluro unrhyw broses deallusrwydd artiffisial.

# 10. Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus

| Cwestiynau a Holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Cwestiwn 58:** Ydych chi'n meddwl bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth ddigonol o'n system gyfiawnder, gan gynnwys materion allweddol fel dirmyg llys? Rhowch y rhesymau dros eich ateb. | **24 (18%)** |
| **Cwestiwn 59:** Ydych chi'n credu bod y llywodraeth yn llwyddo i wneud y cyhoedd yn ymwybodol pan fydd datblygiadau neu brosesau newydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r system gyfiawnder? | **23 (17%)** |
| **Cwestiwn 60:** Yn eich barn chi, beth yw'r prif fylchau yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder? | **24 (18%)** |
| **Cwestiwn 61:** Ydych chi'n meddwl bod digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i helpu'r cyhoedd i lywio drwy'r system gyfiawnder/ceisio cyfiawnder? | **24 (18%)** |
| **Cwestiwn 62:** Ydych chi'n credu bod rôl i dechnolegau digidol o ran cefnogi PLE i helpu pobl i ddeall a datrys eu hanghydfodau cyfreithiol? Esboniwch eich ateb. | **26 (20%)** |
| **Cwestiwn 63:** Ydych chi'n credu mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder? Rhowch y rhesymau dros eich ateb. | **24 (18%)** |
| **Cwestiwn 64:** Pwy arall ydych chi'n meddwl all helpu i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder? | **22 (17%)** |
| **Cwestiwn 65:** Pa ddulliau, yn eich barn chi, sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwella gwybodaeth y cyhoedd am y system gyfiawnder e.e. ymgyrchoedd y llywodraeth, y cwricwlwm ysgol, diwrnodau agored llysoedd a thribiwnlysoedd ac ati? | **41 (31%)** |

## 10.1 Dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd gan y cyhoedd ddealltwriaeth dda o'r system gyfiawnder na'r prif gysyniadau, prosesau a rheolau yn y system gyfiawnder.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod llawer o bobl yn teimlo ofn a dryswch wrth wynebu achos cyfreithiol. Ategwyd hyn gan ddefnyddwyr llysoedd a sefydliadau sy'n cynrychioli

defnyddwyr y llysoedd, gan ddweud nad oes llawer o ddealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a phwerau gwahanol swyddogaethau'r llysoedd, megis y farnwriaeth, bargyfreithwyr a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dywedodd rhai ymatebwyr fod adroddiadau ar y cyfryngau yn aml yn canolbwyntio ar achosion eithriadol neu ddadleuol, felly nid oes gan y cyhoedd ddealltwriaeth lawn o'r system gyfiawnder, yn enwedig cymhlethdodau dedfrydu. Roedd hygyrchedd y gyfraith a dealltwriaeth o'r system gyfiawnder yn cael eu hystyried gan lawer yn egwyddorion pwysig sy'n tanategu rheolaeth y gyfraith.

Soniodd rhai ymatebwyr fod y diffyg gwybodaeth gadarn ynghyd â'r iaith a'r cyfathrebu a ddefnyddir yn y system gyfiawnder yn rhwystr i ddealltwriaeth y cyhoedd. Tynnwyd sylw at Dribiwnlysoedd Cyflogaeth fel maes lle mae gwybodaeth dda ar gael, megis gan Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS), ond nid yw'n gynhwysfawr nac yn gysylltiedig ar draws safleoedd. Nodwyd bod angen ffynonellau unigol o awdurdod i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a hygyrch i bobl.

Soniodd rhai ymatebwyr am y diffyg dealltwriaeth o rôl y cyfryngau mewn cyfiawnder agored, ac nad yw pobl yn aml yn sylweddoli y bydd gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd neu fod gan newyddiadurwyr hawl i roi gwybod am achosion (oni bai fod cyfyngiadau adrodd ar waith).

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod gan y cyhoedd ddealltwriaeth niwlog o gysyniadau fel dirmyg llys ond nad ydynt yn glir ynghylch sut mae'r cysyniadau hyn yn trosi'n ymarferol. Mae cyfryngau cymdeithasol a hollbresenoldeb ffonau clyfar yn golygu bod pobl yn gwneud sylwadau cyhoeddus ar achosion heb ddeall y cyfyngiadau posibl na pham mae'r cyfyngiadau ar waith. Yn yr un modd, gall rheithwyr sy'n cynnal ymchwil ar-lein chwalu treialon. Fodd bynnag, soniodd rhai ymatebwyr am agweddau cadarnhaol cyfryngau cymdeithasol sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r system gyfiawnder, gan gynnwys blogwyr fel y Secret Barrister.

## 10.2 Ymwybyddiaeth o brosesau newydd yn y system gyfiawnder

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd gan y cyhoedd ymwybyddiaeth dda o brosesau newydd yn y system gyfiawnder. Fodd bynnag, teimlai rhai mai diffyg diddordeb y cyhoedd oedd y rheswm pennaf am hynny, nid nad oedd yr wybodaeth ar gael, a chredent mai dim ond mewn datblygiadau yn y system gyfiawnder a oedd yn berthnasol iddynt hwy'n bersonol y byddai gan bobl ddiddordeb. Teimlai ymatebwyr eraill fod y system gyfiawnder yn aml yn cael ei phortreadu'n negyddol ac nad yw'n cael yr un parch na sylw â gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG.

Soniodd nifer o ymatebwyr am ddigideiddio'r system gyfiawnder fel maes nad oedd digon o graffu arno ac roeddent yn teimlo y dylai'r llywodraeth fod yn gwneud mwy i roi

cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar newidiadau, ynghyd â sicrhau gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid a llywodraethu a cherrig milltir mwy tryloyw.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at feysydd penodol o’r gyfraith lle mae angen ffynonellau gwybodaeth gwell a dibynadwy. Er enghraifft, mae pobl yn aml yn troi at fforymau ar y cyfryngau cymdeithasol sy’n trafod cyfraith cyflogaeth heb unrhyw reoleiddio na goruchwylio o ran cywirdeb nac ansawdd yr wybodaeth sy’n cael ei rhannu. Tynnodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sylw at y ffaith eu bod yn dibynnu ar adnoddau y tu ôl i wal dalu fel Crimeline, Westlaw a LexisNexis i gael gwybod am ddatblygiadau, ond mae’r cyhoedd yn annhebygol o fod yn ymwybodol o’r rhain neu dalu amdanynt.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y gwahaniaeth rhwng datganiad i’r wasg sy’n cyhoeddi datblygiad newydd a’r angen am wybodaeth ac addysg gyson sy’n cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut mae’r system yn gweithio. Tynnodd un ymatebydd sylw at yr enghraifft o Ganada fel maes ymarfer da o ran rhoi gwybodaeth eang am waith y llysoedd, gan gynnig ffeithluniau, diwrnodau agored a theithiau rhithiol.

## 10.3 Y prif fylchau mewn gwybodaeth

Cododd ymatebwyr amrywiaeth eang o fylchau gwybodaeth ar draws y system gyfiawnder.

O ran gwybodaeth am hawliau, rolau a chyfrifoldebau o fewn y system gyfiawnder, teimlai ymatebwyr fod bylchau yn nealltwriaeth pobl o’r canlynol:

- Y gwahanol fathau o lys a gwahanol reolau a phrosesau ar gyfer pob un;
- Rôl a swyddogaethau gwahanol bobl yn y llys, yn cynnwys y farnwriaeth, bargyfreithwyr, a Gwasanaeth Erlyn y Goron a sefydliadau allanol fel ACAS;
- Y pwyntiau cyswllt i ddefnyddwyr llys allu siarad â nhw a gofyn am gymorth ganddynt;
- Yr hawl i gymorth cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau.

Nododd yr ymatebwyr fylchau gwybodaeth o ran deall cysyniadau allweddol, yn cynnwys:

- Difenwi a dirmyg llys (sut mae’n gweithio a pham ei fod yn bwysig ar gyfer treial teg);
- Dedfrydu a gwybodaeth am sut mae penderfyniad llys wedi’i wneud;
- Penderfyniadau ynghylch cyhuddo a wneir gan Wasanaeth Erlyn y Goron a’r heddlu;
- Baich a safon y prawf;
- Y gwahaniaeth rhwng euogfarnau troseddol ac atebolrwydd neu gyfrifoldeb sifil;
- Iawndal ar draws gwahanol awdurdodaethau (e.e. cyflogaeth yn erbyn anaf personol).

Nododd ymatebwyr hefyd fylchau gwybodaeth yn nealltwriaeth pobl o brosesau cyfreithiol, yn cynnwys:

- Cwblhau dogfennau gweithdrefnol;
- Sut i baratoi achos llys (drafftio datganiadau, cyflwyno achos yn y llys);
- Sut mae cynsail yn gweithio a pha benderfyniadau y mae'n berthnasol iddynt;
- Canlyniadau 'anffurfiol' y tu allan i'r llys gan gynnwys gorchmynion datrys cymunedol;
- Mecanweithiau gorfodi.

## 10.4 Digon o wybodaeth ar gael i lywio drwy'r system gyfiawnder

Cymysg oedd barn yr ymatebwyr ynghylch a oedd digon o wybodaeth ar gael i lywio drwy'r system gyfiawnder.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod digon o wybodaeth ar gael, ond roedd ar wasgar mewn llawer o wahanol leoedd ac nid oedd un ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth y gallai pobl ei defnyddio. Nid oedd angen rhagor o wybodaeth, ond yn hytrach gwybodaeth hygyrch o ansawdd gwell. Dywedodd un ymatebydd fod y Cod Dioddefwyr yn enghraifft dda o ddod â'r holl wybodaeth berthnasol at ei gilydd mewn un lle mewn ffordd hygyrch.

Teimlai rhai ymatebwyr, hyd yn oed os oedd digon o wybodaeth ar gael, fod llawer o bobl yn teimlo bod system y llys yn fygythiol ac yn aneglur. Roeddent o'r farn nad oedd gwybodaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â diffyg hyder a gallu, a bod angen cymorth ychwanegol ar lawer o bobl o hyd. Crybwyllwyd y ffaith fod llysoedd yn aml yn dibynnu ar ddarparwyr trydydd parti fel Support Through Court i ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn, er bod y cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn ansicr.

## 10.5 Rôl technolegau digidol

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan fod gan dechnolegau digidol rôl i'w chwarae o ran datrys anghydfodau cyfreithiol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fentrau penodol, fel clinigau cyfreithiol digidol a sgwrsfotiaid, fel ffyrdd o ehangu mynediad at gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, ac yn teimlo y dylid defnyddio technolegau digidol yn ofalus i gefnogi a gwella profiadau pobl yn hytrach na disodli bodau dynol. Roedd hyn yn arbennig o wir i ymatebwyr a gododd botensial deallusrwydd artiffisial, gan ddadlau, er bod potensial sylweddol i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella ymgysylltiad pobl â'r system gyfiawnder a'u profiad ohoni, fod yn rhaid i fesurau diogelu effeithiol fod ar waith cyn defnyddio'r math hwn o dechnoleg.

Soniodd rhai ymatebwyr am y potensial i dechnolegau digidol gefnogi addysg gyfreithiol gyhoeddus ehangach am y system gyfiawnder. Gall enghreifftiau fel ystafelloedd llys rhithwir, fideos byr ac animeiddiadau, apiau addysgol, a phodlediadau i gyd helpu i wneud dysgu am y system gyfiawnder yn fwy diddorol.

## 10.6 Cynyddu gwybodaeth am y system gyfiawnder

Cymysg oedd barn yr ymatebwyr ynghylch pwy oedd yn y sefyllfa orau i gynyddu gwybodaeth am y system gyfiawnder. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai’r llywodraeth fod yn darparu ac yn ariannu gwybodaeth gynhwysfawr am y system gyfreithiol ac yn cefnogi pobl i arfer eu hawliau. Teimlai eraill nad oedd pobl bob amser yn ymddiried mewn llywodraeth, yn enwedig y penderfyniadau heriol hynny a wneir gan y wladwriaeth, ac felly mai sefydliadau’r trydydd sector oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu’r wybodaeth a’r gefnogaeth hon. Teimlai rhai mai gweithio mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth a’r trydydd sector oedd y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddeall y system gyfiawnder a llywio’u ffordd drwyddi.

## 10.7 Dulliau o gynyddu gwybodaeth am y system gyfiawnder

Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am gynlluniau i wella dealltwriaeth sylfaenol y cyhoedd o’r system gyfiawnder a chynyddu gwybodaeth i sicrhau bod pobl yn gallu arfer eu hawliau cyfreithiol pan fo angen. Cyflwynwyd amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- Ymgyrchoedd gwybodaeth gan y llywodraeth;
- Cwricwlwm ysgol, e.e. drwy ddosbarthiadau dinasyddiaeth;
- Diwrnodau agored yn y llysoedd;
- Allgymorth cymunedol a gwybodaeth wedi’i thargedu at anghenion y boblogaeth leol;
- Ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol;
- Cyrsiau dysgu ar-lein am ddim;
- Cyfryngau cynnyrch addysgol, e.e. BBC Ideas;
- Llinellau stori mewn operâu sebon;
- Creu canolfan cyfiawnder ganolog gyda dolenni i’r holl wybodaeth berthnasol mewn un lle;
- Hyfforddiant gwell i’r cyfryngau ar effaith eu hadroddiadau;
- Hyfforddiant gwell i staff y llysoedd a’r farnwriaeth ar sut i gefnogi pobl i lywio drwy’r system gyfiawnder;
- Addysg sy’n canolbwyntio ar y plentyn i’r rhai sydd ag aelodau o’r teulu yn y system cyfiawnder troseddol.

Cyfeiriodd un ymatebydd at adroddiad UNODC/UNESCO 2019 'Strengthening the Rule of Law through Education' sy'n cynnwys mesurau y gallai'r llywodraeth eu cymryd i sicrhau dealltwriaeth sylfaenol ymysg y cyhoedd o'r system gyfiawnder.

# 11. Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## 11.1 Asesiad Effaith

Nid oes Asesiad Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y papur ymateb hwn i'r Alwad am Dystiolaeth gan mai'r ffocws oedd casglu tystiolaeth, yn hytrach nag ymgynghori ar set o gynigion. Bydd yr ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi Asesiad Effaith ar gyfer unrhyw gynigion polisi yn y dyfodol.

## 11.2 Cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y Weinyddiaeth
Cyfiawnder, roi sylw dyledus i'r angen i:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

(b) datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu;

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Nid oes Asesiad Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y papur ymateb hwn i'r Alwad am Dystiolaeth gan mai'r ffocws oedd casglu tystiolaeth, yn hytrach nag ymgynghori ar set o gynigion. Bydd yr ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth yn helpu i lywio'r gwaith o gynhyrchu Dadansoddiad Cydraddoldeb wrth ystyried effeithiau tebygol unrhyw gynigion polisi yn y dyfodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig: anabledd, hil, ailbennu rhywedd, oedran, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil.

## 11.3 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae fersiwn Cymraeg o'r ddogfen hon ar gael yn: Dogfen Galwad am Dystiolaeth: Cyfiawnder agored, y ffordd ymlaen - GOV.UK.

# 12. Casgliadau a’r camau nesaf

Hoffai’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiolch i’r holl ymatebwyr am eu cyfraniad i’r Alwad am Dystiolaeth ar Gyfiawnder Agored. Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn sail i waith parhaus y llywodraeth ar gefnogi a chryfhau natur agored ein llysoedd a’n gwasanaethau tribiwnlys a chynnal rheolaeth y gyfraith. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb wrth i ni ddatblygu polisïau yn y maes hwn.

# Atodiad A – Grwpiau Rhanddeiliaid

| **Grŵp Rhanddeiliaid** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Unigolion, defnyddwyr llys, ymgyfreithwyr drostynt eu hunain | 29 | 22% |
| Cyrff Anllywodraethol, elusennau, grwpiau cymdeithas sifil | 26 | 20% |
| Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, cymdeithasau cyfreithiol, cwmnïau cyfreithiol | 26 | 20% |
| Y Byd Academaidd | 16 | 12% |
| Cyfryngau | 16 | 12% |
| Y farnwriaeth a chymdeithasau barnwrol | 6 | 5% |
| Asiantaethau a rheoleiddwyr y Llywodraeth | 5 | 4% |
| | | |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu | 4 | 3% |
| Busnes a Thechnoleg y Gyfraith | 3 | 2% |
| | **131** | **100%** |

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Polisi Cyfiawnder Agored yn: openjusticepolicy@justice.gov.uk